# Trais yn erbyn menywod a merched:

## Adolygiad trin achosion o'r dechrau i'r diwedd

Chwefror 2024

# Tabl Cynnwys


**Crynodeb gweithredol** ... **5**
Pwy ydym ni ... 8
**Cefndir** ... **9**
**Methodoleg** ... **9**
Meini prawf achosion ... 10
Arolwg hygyrchedd ... 10
**O fewn cwmpas** ... **11**
**Allan o gwmpas** ... **12**
**Cyfyngiadau** ... **12**
**Data a gasglwyd** ... **13**
**Canfyddiadau** ... **14**
Ffactorau cenedlaethol Centurion ... 14
Argymhelliad 1 ... 15
Diffyg data cam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu ... 15
Argymhelliad 2 ... 16
Cwyn yn erbyn ymddygiad ... 16
Ymgysylltu cynnar ... 17
Dioddefwyr yr heddlu ... 18
Bregusrwydd a diogelu ... 18
Argymhelliad 3 ... 20
Argymhelliad 4 ... 20
Lles dioddefwyr yr heddlu ... 20
Iaith ... 21
Penderfyniadau ymdrin cychwynnol ... 22
Cymhwyso'r meini prawf atgyfeirio gorfodol ... 23
Ymddygiad nad yw ar ddyletswydd ... 23
Gwrthdaro buddiannau ... 24
Argymhelliad 5 ... 25
Ymchwiliadau ... 25
Rhesymol a chymesur ... 25
Patrymau ymddygiad ... 27
Amseroldeb ... 28
Canlyniadau ... 29
Ymdrin heblaw trwy ymchwiliad ... 31

Rhesymol a chymesur ... 32
Amseroldeb ... 33
Canlyniadau ... 33
Ymdrin y tu allan i atodlen 3 ... 34
Amseroldeb ... 36
Canlyniadau ... 36
Argymhelliad 6 ... 37
Cyfathrebu'r canlyniad ... 37
Argymhelliad 7 ... 39
Argymhelliad 8 ... 41
Hygyrchedd ... 41
Argymhelliad 9 ... 43
**Argymhellion ... 44**
**Camau nesaf ... 45**
Argymhelliad 1 ... 46
Argymhellion 2 – 8 ... 46
Gwaith thematig ehangach VAWG ... 46
Mater ffocws 12: Canllawiau casglu data ... 46
Prosiect PPDA â ffocws ... 46
Canllaw osgoi iaith beio dioddefwr ... 47
Ymgyrch gwybod eich hawliau ... 47
Adolygiad mewnol SAYH o ymdrin ag achosion VAWG ... 47
Adolygiad ystadegol o atgyfeiriadau ... 47
VAWG Ffactorau Cenedlaethol Centurion: ... 48
Arolwg hygyrchedd ... 49
Ymdrin y tu allan i amserlen 3 ... 51
Ymdrin heblaw trwy ymchwiliad ... 51
Ymchwiliad ... 52
Ffactorau VAWG a gymhwysir gan SAYH ... 53
1a. Trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) ... 53
1b. VAWG: Mae'r cyflawnwr yn weithiwr i'r heddlu ... 53
1c. VAWG: Mae'r cyflawnwr a'r dioddefwr yn weithwyr heddlu ... 53
1d. VAWG: Anfodlon â’r modd yr ymdriniwyd â mater yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched ... 53
2. Cam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu (PPDA) ... 53

2a. Mae'r dioddefwr yn weithiwr heddlu ........ 54
**Geirfa ........ 55**
Awdurdod priodol ........ 55
Ffactor cenedlaethol Centurion ........ 55
Mater ymddygiad ........ 55
Meini prawf atgyfeirio gorfodol ........ 55
Camymddwyn a chamymddwyn difrifol ........ 55
Dioddefwyr nad ydynt yn heddlu ........ 55
Cwyn am yr heddlu ........ 55
Gweithwyr yr heddlu ........ 55
Dioddefwr yr heddlu ........ 56
Proses adolygu arfer myfyriol (RPRP) / arfer myfyriol ........ 56
Safonau ymddygiad proffesiynol ........ 56
Beio dioddefwyr ........ 56
Dioddefwr-oroeswr ........ 56

## Crynodeb gweithredol

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn bryder i blismona a system gwynion yr heddlu. Mae achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr yn parhau i ddweud wrthym am y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu pan fyddant yn dod i gysylltiad â phlismona. Mae achosion proffil uchel sy'n peri gofid fel llofruddiaeth Sarah Everard a gweithredoedd swyddogion heddlu yn ymchwilio i lofruddiaethau Bibaa Henry a Nicole Smallman wedi arwain at bryder cyhoeddus cynyddol am ymateb yr heddlu yn y maes hwn. Mae hyn wedi niweidio hyder y cyhoedd mewn plismona ac wedi codi cwestiynau am yr agweddau diwylliannol tuag at fenywod a merched mewn plismona yn gyffredinol.

Mae gan SAYH rôl i'w chwarae wrth nodi a rhannu dysgu, yn ogystal â sicrhau bod yr heddlu'n cael ei ddal yn atebol am ei ymagwedd at gwynion a chamymddwyn yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys trais a gyflawnir gan aelodau o wasanaeth yr heddlu.

Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, buom yn gweithio gydag wyth heddlu i adolygu detholiad o ffeiliau cwynion ac ymddygiadau. Fe wnaethom archwilio 121 o ffeiliau i adolygu sut y gwnaethant ymdrin â materion cwynion ac ymddygiadau lle roedd trais yn erbyn menywod a merched yn ffactor ac os oedd eu hymatebion yn briodol, cymesur ac yn unol â chyfraith a chanllawiau perthnasol. Rydym yn cydnabod bod adolygiadau ac ymchwiliadau eraill wedi bod i ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched. Fodd bynnag, roedd ein cwmpas ychydig yn wahanol ac rydym wedi canolbwyntio ar ein cylch gorchwyl a'n pwerau a chymhwysiad *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002.* Rydym yn rhannu'r canfyddiadau hyn er mwyn i bob llu heddlu yn Lloegr a Chymru allu cynnal sgyrsiau am eu safonau a'u diwylliant eu hunain mewn ymateb i drais yn erbyn menywod a merched.

Dangosodd yr wyth llu a weithiodd gyda ni o ran proses, mae llawer o feysydd lle maen nhw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, oedd yn galonogol i'w weld. Rydym yn gwybod trwy graffu cynyddol ar ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched, bod adrannau safonau proffesiynol (yr adrannau sy'n ymdrin â chwynion a materion ymddygiad yr heddlu) wedi cyflwyno cynlluniau newydd i godi ymwybyddiaeth o'r broses gwyno, wedi darparu gwell hyfforddiant i staff a mabwysiadu prosesau newydd i ymateb i gwynion a materion ymddygiad. Gall ein canfyddiadau adlewyrchu'r ffocws newydd hwn.

Fe wnaethom asesu os oedd heddluoedd yn cymhwyso'r meini prawf atgyfeirio gorfodol yn briodol i achosion trais yn erbyn menywod a merched a chanfuwyd bod heddluoedd yn atgyfeirio'r achosion cywir i SAYH. Gwnaethom ganfod hefyd fod ymddygiad nad oedd ar ddyletswydd yn cael ei drin â'r un lefel o ddifrifoldeb ag ymddygiad a ddigwyddodd tra roedd y swyddog neu aelod o staff ar ddyletswydd.

Fodd bynnag, mae'n canfyddiadau hefyd yn dangos hyd yn oed pan fydd y rhan fwyaf o brosesau yn cael eu dilyn yn gywir neu'n mynd yn dda, mae'r rheini sydd ddim, yn cael effaith ddinistriol ar y bobl go iawn a effeithir.  Rydym wedi nodi rhai arferion da, ond rydym hefyd wedi adnabod meysydd lle mae pethau wedi mynd o'u lle.

Un enghraifft glir a phryderus o fethiant yn y system oedd diffyg adnabod neu gydnabod bregusrwydd gan rai trinwyr cwynion a dim cyfrifoldeb clir am ddiogelu (er bod hyn yn well pan fydd yr achwynydd neu’r dioddefwr-oroeswr hefyd yn swyddog heddlu). Teimlwn fod angen i heddluoedd fod yn well am weithio'n agosach gyda grwpiau cymorth lleol, elusennau a sefydliadau a ffurfio partneriaethau i ddarparu cymorth priodol i achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr. Dylai'r rhai sy'n ymdrin â chwynion gael gwell mynediad at wybodaeth ac adnoddau am y partneriaethau lleol hynny a'r hyder i gyfeirio at gymorth ychwanegol.

Er i ni ganfod bod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur gan yr heddlu, canfuom hefyd nad oedd y rhai sy’n ymdrin â chwynion bob amser yn ystyried os oedd patrwm ymddygiad yn dod i’r amlwg â’r heddwas dan amheuaeth neu os oes digwyddiadau eraill yn hanes y cwynion amdano a allai fod yn berthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o drais yn erbyn menywod a merched, er enghraifft, lle gallai ymddygiad rheibus ddod i'r amlwg yn y modd y mae swyddog yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â phobl sy'n agored i niwed.

Roedd diffyg sylweddol hefyd o achosion i'w hadolygu lle roedd cam-drin domestig a gyflawnwyd gan swyddogion heddlu neu staff yn ffactor. Rydym yn pryderu bod adrannau safonau proffesiynol yn ei chael yn anodd adnabod y mathau hyn o achosion yn gywir oherwydd y ffordd y gellir eu cofnodi neu yr ymatebir iddynt. Mae trin honiadau o gam-drin domestig gan yr heddlu fel cwynion neu faterion ymddygiad o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol i sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n briodol. Byddwn yn cynnal rhagor o waith gyda heddluoedd i asesu sut y caiff yr adroddiadau hyn eu cofnodi ac yr ymatebir iddynt a sut yr ymdrinnir â chwynion ac ymddygiad.

Rydym wedi gwneud cyfres o argymhellion ymarferol ar gyfer plismona a fydd, gobeithiwn, yn eu helpu i barhau i wneud cynnydd yn y meysydd lle mae gwelliannau wedi’u gwneud, a gwneud newidiadau synhwyrol lle mae angen gwneud mwy o waith.

Mae menywod a merched sydd wedi profi trais a/neu gamdriniaeth, ynghyd â’u heiriolwyr, yn dweud wrthym fod angen gwella’r broses gwyno. Maen nhw’n disgrifio’r profiad negyddol o wneud cwyn lle maen nhw’n teimlo nad ydyn nhw’n cael eu credu, yn destun iaith sy’n ceisio rhoi’r bai arnyn nhw, a ddim yn cael cynnig y cymorth cywir.  Felly rydym yn gwybod mai dim ond rhan o’r darlun yw’r adolygiad hwn, ac mae’r adroddiad hwn yn eistedd o fewn ein gwaith ehangach ar brofiad menywod a merched sydd wedi cael mynediad i’r system gwynion ar ôl bod yn destun trais a/neu gamdriniaeth.

Fel rhan o’r rhaglen hon rydym wedi cynhyrchu canllawiau i’n staff ar **Roi terfyn ar feio dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod a merched**:  **Pam mae iaith, agweddau ac ymddygiad yn bwysig**. Bydd hyn yn cynorthwyo staff sy’n dod i gysylltiad â menywod a merched sydd wedi profi trais a/neu gamdriniaeth i’w helpu i osgoi defnyddio geiriau sy’n awgrymu, naill ai’n fwriadol neu’n anfwriadol, bod dioddefwyr-oroeswyr yn rhannol neu’n gyfan gwbl gyfrifol am y cam-drin sydd wedi digwydd iddyn nhw. Rydym yn falch o’r arweiniad ac mae wedi’i gynhyrchu i’w ddefnyddio ym mhob rhan o SAYH, yn ogystal â holl heddluoedd Cymru a Lloegr. Mae’r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi mynegi eu bod yn gweld y canllawiau fel arf gwerthfawr y maent yn fodlon helpu i gymeradwyo ei ddefnydd mewn heddluoedd. Rydym yn falch o fod wedi cael adborth defnyddiol iawn drwy ein hymgysylltu â rhanddeiliaid fel Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh a Chymorth i Fenywod i lywio’r gwaith hwn.

Rydym hefyd yn bwriadu lansio ymgyrch o'r enw Gwybod eich hawliau. Mae hon yn canolbwyntio ar ddioddefwyr-oroeswyr a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo, i godi ymwybyddiaeth o'r system gwynion ac annog pobl i gael mynediad iddi. Byddwn hefyd yn cyflawni’r camau a gymerwyd o ganlyniad i’r ymchwiliad i uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Merched ar gam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu.

Hoffwn ddiolch i Cleveland, Cumbria, Manceinion Fwyaf, Gwent, Swydd Gaerlŷr, Glannau Merswy, Swydd Stafford a Wiltshire am eu cyfraniad at y prosiect hwn ac am ganiatáu i ni gael mynediad agored i’w ffeiliau. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i SafeLives a Chymorth i Ferched am eu cyngor ar yr ymagwedd at y gwaith hwn a hefyd i SafeLives am ddarparu hyfforddiant i staff SAYH.



**Amanda Rowe**
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Arweinydd Strategol: Trais yn Erbyn Menywod a Merched

## Ein gwaith ar drais yn erbyn menywod a merched

Mae SAYH wedi ymrwymo i raglen waith sy’n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a merched. Mae hyn wedi'i flaenoriaethu mewn ymateb i bryder cynyddol y cyhoedd am ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched ac agweddau diwylliannol wrth blismona tuag at fenywod a merched. Bydd ffocws allweddol y gwaith yn mynd i’r afael â chamau gweithredu o’r ymchwiliad i uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Merched ar gam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu. Drwy ganolbwyntio ar ein swyddogaeth statudol, a throsolwg o system gwynion yr heddlu, ein nod yw:

- Gwella ymddiriedaeth a hyder mewn achwynwyr a’r rhai sy’n eu cynorthwyo yn ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched
- Dwyn yr heddlu i gyfrif am eu hymateb i drais yn erbyn menywod a merched
- Nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn gwella arferion plismona
- Sicrhau bod y cyhoedd yn deall ein rôl yn y modd y mae’r heddlu’n delio â thrais yn erbyn menywod a merched

## Pwy ydym ni

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yw corff gwarchod cwynion yr heddlu. Nid ni yw’r heddlu ac rydym yn gwbl annibynnol oddi wrthynt. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer system gwynion yr heddlu. Rydym yn sicrhau bod yr heddlu yn ymchwilio i gwynion amdanynt yn briodol. Rydym hefyd yn ymchwilio i'r digwyddiadau mwyaf difrifol a sensitif yn ymwneud â'r heddlu ein hunain.

Trwy ein gwaith, rydym yn dal yr heddlu i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o'u lle, yn argymell newidiadau i atal yr un camgymeriadau rhag ddigwydd eto ac yn hyrwyddo safonau uchel o blismona. Rydym yn defnyddio ein tystiolaeth i ysgogi gwelliannau yn arferion yr heddlu er budd y cyhoedd a’r heddlu. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein gweledigaeth i bawb allu cael ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.

# Cefndir

Mae achosion proffil uchel diweddar a'r adolygiadau dilynol i blismona wedi arwain at fwy o bryder cyhoeddus am ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched (VAWG).Er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau mewn plismona, yn 2022 datblygodd SAYH raglen waith thematig i fynd i'r afael â VAWG. Mae'r adroddiad hwn yn rhannu ein canfyddiadau o adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r modd yr ymdriniodd heddluoedd â chwynion a materion ymddygiad lle roedd VAWG yn ffactor.

Ym Mawrth 2020, cyflwynodd Canolfan Cyfiawnder Menywod (CWJ) uwch-gŵyn yn honni nad oedd lluoedd yn ymateb yn briodol i achosion o gam-drin domestig yn ymwneud  â syddogion heddlu neu staff heddlu o dan amheuaeth. Canfu'r ymchwiliad i'r uwch-gŵyn fod 'diffygion systemig' yn y ffordd y mae rhai heddluoedd yn Lloegr a Chymru yn ymdrin â honiadau o gam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu (PPDA). Nododd yr ymchwiliad nifer o argymhellion a chamau gweithredu i amddiffyn a chynorthwyo dioddefwyr yn well ac i wella ansawdd ymchwiliadau. Cytunodd y SAYH i gynnal rhaglen wedi'i thargedu o waith goruchwylio i'r modd yr ymdriniodd yr heddlu ag achosion PPDA. Mae canfyddiadau ymchwiliad uwch-gŵyn CWJ wedi bwydo i ffocws yr adolygiad ehangach hwn o'r modd yr ymdriniodd yr heddlu â chwynion a materion ymddygiad yn ymwneud â VAWG.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn bennaf ar gyfer rhanddeiliaid plismona ac felly mae'n cynnwys rhywfaint o gyfeiriad at iaith dechnegol. Cynhwysir geirfa i egluro peth o'r derminoleg. Nod yr adolygiad o ffeiliau achos a'r adroddiad dilynol yw gwella ymateb yr heddlu i gwynion VAWG a materion ymddygiad ac felly mae wedi'i anelu at ymarferwyr trin cwynion.

# Methodoleg

Fe wnaethom adolygu 121 o ffeiliau achos ar draws wyth llu heddlu. Gwahoddwyd yr wyth llu i fod yn rhan o'r adolygiad trin achosion yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys rhaniad daearyddol, maint yr heddlu, data cwynion yr heddlu, a gwybodaeth arall megis mentrau VAWG hysbys. Y lluoedd heddlu a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn oedd:

| | |
|---|---|
| Cleveland | Swydd Gaerlŷr |
| Cumbria | Glannau Merswy |
| Manceinion Fwyaf | Swydd Stafford |
| Gwent | Wiltshire |

Hoffem ddiolch i'r heddluoedd hyn am gymryd rhan yn y prosiect hwn, am y wybodaeth a rannwyd â ni a'u cymorth i gwblhau'r gwaith samplu ar hap.

Gwnaethom ysgrifennu cynnig ar gwmpas a methodoleg yr adolygiad ymdrin ag achosion gan gynnwys sut y byddai achosion yn cael eu nodi, beth fyddai ffocws yr adolygiad a sut y byddai data'n cael eu casglu. Ymgynghorwyd ar y cynnig hwnnw â'r holl heddluoedd a chyrff plismona lleol. Rydym hefyd yn ddiolchgar i SafeLives a Chymorth i Ferched am eu cyngor ar y cynnig.

Dewiswyd achosion gan SAYH o restr a ddarparwyd gan yr heddluoedd a oedd â ffactor cenedlaethol VAWG Centurion wedi'i gymhwyso. Mae hwn yn dag a roddir ar faterion cwynion ac ymddygiadau a gofnodir ar systemau'r heddlu i roi cyd-destun i'r honiad). Nid oedd gan yr heddluoedd unrhyw ran yn yr achosion a ddewiswyd i'w hadolygu. Cwblhawyd ein hadolygiad o ffeiliau ar y safle yn yr heddluoedd a ddetholwyd, gan edrych ar bapurau achos naill ai drwy adolygu cofnodion Centurion (system rheoli achosion yr heddlu), neu gopi caled, papurau printiedig.

Casglwyd data ar daenlen at ddibenion dadansoddi.

Ar ôl pob sampl o ffeiliau, cynaliasom gyfarfodydd adborth â'r heddluoedd unigol i rannu ein canfyddiadau, meysydd i'w gwella neu arfer cadarnhaol.

## Meini prawf achosion

Dewiswyd achosion gan SAYH o restr a ddarparwyd gan yr heddlu. Gofynnwyd i'r heddlu ddarparu rhif cyfeirnod yr heddlu, ffactor cenedlaethol Centurion a chrynodeb byr o'r honiadau yn unig. Roedd y crynodeb o'r honiadau yn caniatáu i achosion gael eu dewis er mwyn sicrhau croestoriad o fathau o honiadau. Ni ddarparwyd unrhyw enwau achwynwyr na dioddefwyr-oroeswyr. Roedd y rhestr o achosion y gofynnwyd amdanynt yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- materion cwynion ac ymddygiadaua gofnodwyd o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023
- lle dewiswyd o leiaf un o'r ffactorau cenedlaethol Centurion VAWG (gweler Atodiad A)
- achosion caeëdig lle penderfynwyd canlyniad (nid oedd hyn yn cynnwys achosion a oedd yn aros am benderfyniad adolygiad*, er mwyn peidio â rhagfarnu canlyniad yr adolygiad)

**Mae adolygiad yn ddull o ailystyried achos os nad yw'r sawl sy'n gwneud y gŵyn yn hapus â chanlyniad ei gŵyn neu'r ffordd y gwnaeth yr heddlu ymdrin â hi.*

## Arolwg hygyrchedd

Yn ogystal ag adolygu'r modd yr ymdriniodd yr heddlu â chwynion ac ymddygiad, fe wnaethom archwilio gyda heddluoedd pa mor hygyrch yw system gwynion yr heddlu i ddioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr ymddygiad cysylltiedig â VAWG Mae hyn yn cynnwys ymddygiad a gyflawnir gan yr heddlu ac anfodlonrwydd â'r ffordd yr

ymdrinnir ag achos VAWG. Roedd gennym ddiddordeb hefyd mewn dysgu pa fecanweithiau sydd ar gael i ddioddefwyr neu dystion yr heddlu i adrodd am faterion ymddygiad a gyflawnir gan yr heddlu yn ymwneud â VAWG.

Gwnaethom ofyn i'r wyth llu heddlu ymateb i gwestiynau (gweler Atodiad B) i'n helpu i ddeall sut mae achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr VAWG yn cael mynediad i'r system gwynion. Roeddem hefyd am nodi pa wybodaeth sydd ar gael a choladu unrhyw fentrau y gallwn eu rhannu â heddluoedd i hyrwyddo'r system gwynion i elusennau a grwpiau cymorth penodol VAWG.

# O fewn cwmpas

Roedd yr adolygiad samplu ffeiliau yn canolbwyntio ar ymdrin â chwynion ac yn ystyried os yw materion cwynion ac ymddygiad yn cael eu trin yn briodol ac yn unol â chanllawiau a chyfreithiau perthnasol.

Mae ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched yn cael ei graffu fwyfwy, gan gynnwys cyhoeddi achosion proffil uchel a nifer o adolygiadau ac ymchwiliadau i ymateb yr heddlu. Mae cyrff rheoleiddio eraill gan gynnwys y Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) hefyd wedi canolbwyntio ar VAWG. Rydym yn gwybod bod heddluoedd unigol yn cyflwyno mentrau lleol i wella ymateb yr heddlu. Mae'n bwysig bod SAYH yn canolbwyntio ar y meysydd lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf yn unol â'n rôl a'n pwerau. Roedd hefyd yn allweddol ein bod wedi ystyried canfyddiadau uwch-gŵyn CWJ ar yr heddlu yn cyflawni cam-drin domestig.

| Meysydd ffocws | |
|---|---|
| **Penderfyniadau ymdrin cychwynnol** | Adolygu'r penderfyniadau a wneir ar ddechrau achos i gynnwys os yw'n cael ei gofnodi a sut y caiff ei drin.<br><br>Ffocws penodol ar gofnodi materion ymddygiad lle mae'r dioddefwr yn weithiwr i'r heddlu. |
| **Cyfeiriad at SAYH** | I asesu cydymffurfiaeth â'r meini prawf atgyfeirio gorfodol, a'r defnydd ohonynt (gweler pennod 9 o ganllawiau statudol SAYH). |
| **Cyswllt, diweddariadau a gwybodaeth i ddioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr** | Adolygu ymgysylltiad a chyfathrebu'r heddlu â dioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr o'r cyswllt cychwynnol hyd at ddiwedd y gŵyn/mater ymddygiad |
| **Ansawdd ymdrin / ymchwilio** | Ystyried os yw'r penderfyniadau a'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r gŵyn neu fater ymddygiad yn rhesymol ac yn |

| | |
|---|---|
| | gymesur â'r honiadau a wnaed. Adolygu os dilynir trywyddau ymholi priodol. |
| **Canlyniadau** | Adolygu os yw canlyniadau yn rhesymol a chymesur ac os yw materion yn cael eu trin yn ddigon difrifol. Asesu os yw ymateb yr heddlu yn ddiduedd ac yn gadarn ac a oes cysondeb ar draws heddluoedd wrth wneud penderfyniadau. |
| **Iaith** | Asesu os yw heddluoedd yn osgoi iaith beio dioddefwyr ac yn sensitif i anghenion dioddefwyr-oroeswyr ac achwynwyr. |

# Allan o gwmpas

Nid yw'r adolygiad hwn yn ystyried y canlynol:

- Achosion sydd y tu allan i ddiffiniad ffactorau cenedlaethol Centurion o VAWG, hynny yw dioddefwyr gwrywaidd (gweler atodiad A).
- Troseddau VAWG lle nad oes cwyn neu fater ymddygiad yn erbyn yr heddlu.
- Achosion agored lle nad oes penderfyniad wedi'i wneud.
- Achosion caeëdig sydd o fewn y cyfnod adolygu neu lle mae adolygiad wedi'i gyflwyno, ond nad oes penderfyniad wedi'i wneud.
- Ymdrin â, neu wneud penderfyniadau, mewn achosion disgyblu sy'n dilyn cwyn neu fater ymddygiad sy'n ymwneud â VAWG.
- Croestoriadau VAWG â nodweddion gwarchodedig eraill – rydym yn cydnabod y gall profiadau o VAWG ac ymateb yr heddlu amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau a chymunedau. Er mwyn adolygu croestoriadedd yn iawn byddai angen sampl hap llawer mwy, yn cynnwys amrediad ehangach o heddluoedd ac arbenigwyr pwnc. Nid oedd cyfyngiadau'r prosiect hwn yn caniatáu ar gyfer y gwaith ehangach hwn ac roedd pryder y gallai cwmpas y prosiect fynd yn rhy eang. Hefyd, mae nifer yr achosion sydd â gwybodaeth ddigonol wedi'i chofnodi ar ddemograffeg a nodweddion gwarchodedig yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau ystyrlon.


# Cyfyngiadau

Mae gan dîm Goruchwylio SAYH (y tîm sy'n cynnal y gwaith samplu) wybodaeth a phrofiad o ymdrin â chwynion a chymhwyso *Deddf Diwygio'r Heddlu 2022*. Cyfrannodd arbenigwyr pwnc, o fewn SAYH a thu allan, at gynllunio a ffocws y samplu ffeiliau a rhoi cyngor lle roedd angen.

Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar gwynion VAWG ac ymdrin â materion ymddygiad fel y cofnodwyd ar Centurion. Ni chafodd unrhyw wybodaeth berthnasol i'r achosion hyn a gedwir mewn mannau eraill ar systemau heddlu eraill (fel ffeiliau troseddau neu gofnodion personél) ei hadolygu. Mewn nifer o achosion, nid oedd digon o wybodaeth ar gael, naill ai trwy gadw cofnodion Centurion na'r ffeiliau printiedig, i wneud asesiad gwybodus mewn rhai o'r meysydd a adolygwyd. Mae hyn wedi arwain at atebion ‘methu penderfynu’.

Wrth ddewis achosion i'w hadolygu, gofynnwyd i heddluoedd ddarparu gwybodaeth am y categori honiad. Roedd hyn er mwyn caniatáu i amrywiaeth o wahanol fathau o achosion fod yn rhan o'r sampl. Yr uchelgais ar gyfer y gwaith hwn oedd samplu tua 30% o gyfanswm yr achosion yn ymwneud â cham-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu. Yn siomedig, trwy'r fethodoleg a ddefnyddiwyd, nid oedd digon o achosion PPDA ar gael i ddewis ohonynt. Dim ond 11 achos a samplwyd gennym lle roedd PPDA yn ffactor. Er mwyn bodloni’r camau gweithredu sy’n deillio o uwch-gŵyn CWJ, mae SAYH yn ystyried pa waith ychwanegol a allai fod yn bosibl i nodi ac adolygu achosion PPDA. Bydd y gwaith ychwanegol hwn yn ffurfio rhan o is-brosiect ar wahân ac yn cael ei adrodd ar wahân i'r adroddiad hwn er mwyn osgoi gohirio canfyddiadau'r adolygiad hwn o ffeiliau achos.


## Data a gasglwyd




Adolygwyd y ffeiliau achos canlynol:

*Gweler Atodiad C am esboniad o ymchwiliad, ymdriniaeth ac eithrio drwy ymchwiliad (OTBI) a thrin y tu allan i Atodlen 3.*

O’r 121 o achosion a adolygwyd, mae’r math o fater VAWG wedi’i ddadansoddi yn ôl y ffactorau canlynol (fel y cymhwysir gan SAYH):




*Gweler Atodiad D am esboniad o'r ffactorau a gymhwyswyd gan SAYH.*

# Canfyddiadau

## Ffactorau cenedlaethol Centurion

Wrth adolygu'r achosion a ddewiswyd gyda ffactor cenedlaethol centurion VAWG, mae'n amlwg bod heddluoedd yn gorgymhwyso'r ffactorau VAWG. Fe wnaethom adolygu sawl achos lle cafodd y ffactor centurion VAWG ei gymhwyso i amgylchiadau a honiadau nad oeddent yn bodloni’r diffiniad o VAWG. Er enghraifft, unrhyw gŵyn am ddefnydd o rym a wneir gan fenyw. Nid oedd yr achosion hyn yn rhan o'r sampl a chawsant eu dileu.

Pwrpas ffactorau cenedlaethol VAWG Centurion yw cofnodi senarios sy’n effeithio’n anghymesur ar fenywod a merched, nid unrhyw gŵyn neu honiad a wneir gan fenyw. Canfuwyd defnydd anghywir o ffactorau VAWG ym mhob un o’r wyth heddlu a samplwyd ac felly, mae’n debygol o gynrychioli mater cenedlaethol o ran deall diffiniad VAWG a chymhwyso’r ffactorau. Mae angen mwy o arweiniad ac enghreifftiau achos i gynorthwyo heddluoedd i gymhwyso'r ffactorau'n gywir. Byddai hyn yn arwain at ffynonellau data mwy cyson a dibynadwy.

Gwnaethom ddiweddaru canllawiau Ffocws SAYH ar gasglu data ym mis Medi 2023 i gynnwys mwy o enghreifftiau VAWG ac egluro pa achosion na fyddai'n bodloni diffiniad ffactorau VAWG.

**Argymhelliad 1**

Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) yn rhoi arweiniad i bob heddlu yn Lloegr a Chymru ar ddiffinio a chymhwyso ffactorau cenedlaethol VAWG Centurion yn gywir.

## Diffyg data cam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu

Fel y crybwyllwyd yn yr adran 'Cyfyngiadau' uchod, roedd diffyg sylweddol o achosion PPDA ar gael i'w dethol a'u samplu. Pan wnaethom ofyn i heddluoedd pam y gallai hyn fod, cawsom ymateb cymysg iawn gan gynnwys:

- gellid ymdrin ag achosion y tu allan i adrannau safonau proffesiynol mewn unedau arbenigol, megis yr uned diogelu'r cyhoedd.
- gallai achosion gael eu cofnodi ar systemau heddlu eraill megis systemau trosedd.
- gallai achosion gael eu symud ymlaen fel mater troseddol i ddechrau ac yna byddai unrhyw faterion ymddygiad yn cael eu hystyried ar ôl hynny, gan ystyried y penderfyniad troseddol.
- gallai achosion gael eu cofnodi fel cyfeirnod achos amrywiol (MI) sy'n golygu nad yw'r mater yn cael ei gofnodi fel cwyn neu fater ymddygiad o'r cychwyn, tra bod ymholiadau'n cael eu gwneud.

Mae'n destun pryder nad yw adrannau safonau proffesiynol yn gallu darparu darlun cywir o nifer yr achosion PPDA a adroddir yn eu heddlu bob blwyddyn. Rydym yn gwybod o ymchwil i uwch-gŵyn CWJ fod achosion PPDA yn bodoli. Fodd bynnag, mae'n anodd adnabod yr achosion hynny mewn ffordd systemig a chywir. Canfu uwch-gŵyn CWJ "bod yr ymdriniaeth gychwynnol o honiadau PPDA fel honiadau o gamymddwyn yr heddlu wedi cael ei ganfod i fod yn gyffredinol wael yn yr achosion a'r data a adolygwyd gennym. Yn rhy aml roedd heddluoedd yn methu â thrin honiadau PPDA yn gywir fel cwynion heddlu a materion ymddygiad". Canfuwyd gwendidau hefyd yn y dulliau cofnodi data a chasglu ar gyfer PPDA. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, a thrafodaethau dilynol gyda heddluoedd, mae'n ymddangos nad yw pethau wedi gwella digon. Mae trin honiadau PPDA fel cwynion neu faterion ymddygiad o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol i sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n briodol. Lle bynnag y bo modd, dylid ystyried materion troseddol a materion ymddygiad ochr yn ochr, ond lle nad yw hyn yn bosibl, dylai heddluoedd barhau i sicrhau bod materion ymddygiad yn cael eu cofnodi'n gywir o'r cychwyn cyntaf. Mae sicrhau bod heddluoedd yn cyfeirio adroddiadau PPDA at adrannau safonau proffesiynol ac yn eu cofnodi ar Centurion o'r cychwyn cyntaf hefyd yn caniatáu ar gyfer adrodd data cywir.

Rydym yn ymwybodol y bydd ffactor cenedlaethol PPDA Centurion newydd yn cael ei gyflwyno cyn bo hir a fydd yn caniatáu i achosion a gofnodwyd ar Centurion gael eu nodi a'u tynnu'n haws. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn datrys y broblem yn llawn os na fydd achosion yn cyrraedd adrannau safonau proffesiynol yn y lle cyntaf neu os na byddant yn cael eu cofnodi ar Centurion fel cwyn neu fater ymddygiad o'r cychwyn cyntaf.

**Argymhelliad 2**


Bydd SAYH yn dechrau prosiect ar wahân yn canolbwyntio ar sut mae heddluoedd yn ymateb i adroddiadau PPDA. Bydd hyn yn cynnwys sut mae adroddiadau am PPDA yn cael eu hadnabod a'u cofnodi, yr holl ffordd i sut mae materion cwynion ac ymddygiadau yn cael eu trin.  Bydd y gwaith yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei wybod o'r adroddiad uwch-gwynion CWJ a bydd yn canolbwyntio ar adnabod datrysiadau i wella'r ymateb plismona i PPDA.

## Cwyn yn erbyn ymddygiad

Canfu ein hadolygiad o ffeiliau fod materion ymddygiad (ymddygiad nad yw'n destun cwyn ffurfiol) yn cael eu trin yn fwy difrifol yn gyffredinol na materion sy'n ymwneud â chwynion. Mae ymchwiliadau i faterion ymddygiad yn dueddol o fod yn gyflym gyda chanlyniadau o ansawdd da. Gallai hyn fod yn arwydd o'r ffaith, er mwyn i fater gael ei gofnodi fel mater ymddygiad cofnodadwy, fod yn rhaid cael arwydd y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau achos disgyblu. Felly, mae rhywfaint o dystiolaeth eisoes o gamwedd i fater ymddygiad gael ei gofnodi. Ar gyfer cwynion, mae'n rhaid cofnodi *pob* mynegiad o anfodlonrwydd.

Pan siaradom â'r heddluoedd dan sylw, yn gyffredinol nid oes ganddynt ymagwedd dim goddefgarwch tuag at lawer o faterion ymddygiad sy'n ymwneud â VAWG ac roeddent yn awyddus i ddileu neu ddisgyblu'r heddlu sy'n cyflawni VAWG yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r gwahaniaeth mewn ymagwedd at faterion ymddygiad hefyd yn adlewyrchu'r math o ymddygiad sy'n cael ei archwilio. Roedd y rhan fwyaf o'r materion cwynion a adolygwyd gennym yn gŵyn o anfodlonrwydd â'r modd yr ymdriniwyd â mater yn ymwneud â VAWG. Roedd llawer o'r rhain yn gwynion am ddiffyg diweddariadau neu wybodaeth am ymchwiliad parhaus. Dyma'r mathau o faterion y gellir eu datrys yn hawdd heb ymholiadau hirfaith ac ni fyddent yn arwain at ganlyniad disgyblu. Ar gyfer y materion ymddygiad a adolygwyd gennym, roedd y mwyafrif yn VAWG a gyflawnir gan yr heddlu, neu gam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu sy'n fwy tebygol, os caiff ei brofi, o arwain at ganlyniadau cadarn megis achosion disgyblu.




Canfuom fod y penderfyniadau a wnaed gan heddluoedd ar ddiwedd yr ymdriniaeth yn briodol, boed hynny ar gyfer cwynion neu faterion ymddygiad. Felly, mae'r gwahaniaeth wrth ymdrin â materion ymddygiad yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r system wedi'i dylunio a natur ddifrifol materion ymddygiad. Mae'n gadarnhaol gweld, yn gyffredinol, bod heddluoedd yn defnyddio dull cadarn a diduedd o ymdrin â materion ymddygiad, sy'n tueddu i gynnwys VAWG a gyflawnir gan yr heddlu a cham-drin domestig.

## Ymgysylltu cynnar

Lle gwneir cwyn neu pan gofnodir mater ymddygiad, mae SAYH yn disgwyl i heddluoedd ymgysylltu'n gynnar ag achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr i ddeall natur yr honiad, sut yr hoffai'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr gael gwybod am yr achos ac i drafod sut y dylid trin y mater. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion VAWG lle gallai'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr fod yn agored i niwed hefyd. Gall ymgysylltu da o'r cychwyn cyntaf sicrhau bod achwynydd/dioddefwr-oroeswr yn deall y broses gwyno, bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli, a'u bod yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y broses hyd nes y daw i ben.

Yn yr achosion a samplwyd gennym, mae tystiolaeth bod heddluoedd yn cysylltu'n gynnar ag achwynwyr/dioddefwyr-goroeswyr. O'r 113 o achosion gydag achwynydd / dioddefwr-goroeswr, bu'r cyswllt yn llwyddiannus mewn 71% o achosion (80) a rhoddwyd cynnig arni ond bu'n aflwyddiannus mewn 11% (12). Roedd 7 achos lle nad oeddem yn gallu penderfynu os ceisiwyd unrhyw gyswllt ac 14 achos lle na cheisiwyd cysylltu. Lle na chysylltwyd â'r achwynydd / dioddefwr-goroeswr, dim ond pedwar achos oedd pan benderfynom nad oedd hyn yn rhesymol. Mewn rhai achosion, roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn dangos bod yr achwynydd / dioddefwr-oroeswr wedi gwneud adroddiad ond wedi gofyn am beidio â chysylltu eto.

O fewn yr ymgysylltiad cychwynnol ag achwynydd / dioddefwr-oroeswr, mae SAYH yn disgwyl i heddluoedd esbonio'r broses gwyno fel bod achwynydd / dioddefwr-oroeswr yn cael ei hysbysu'n llawn am yr hyn sydd i'w ddisgwyl ac yn rhan o benderfyniadau ynghylch sut y dylid ymdrin â'r mater. Yn yr achosion hynny lle roedd achwynydd / dioddefwr-oroeswr yn dymuno derbyn ymgysylltiad, canfuom fod y broses gwyno wedi'i hesbonio'n dda neu'n ddigonol mewn bron i draean o achosion (32 o 106) ac na chafodd ei hegluro'n dda mewn 22% o'r achosion (22 o 106). Mewn bron i hanner yr achosion (51 o 106), nid oedd yn bosibl penderfynu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cadw cofnodion a'r wybodaeth a gofnodwyd ar y ffeil. Mewn rhai achosion, gall heddluoedd fod wedi cael trafodaethau cychwynnol ag achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr dros y ffôn ac er y gall fod nodyn byr o'r alwad, nid yw'n bosibl penderfynu o nodiadau'r alwad ffôn a gafodd y broses ei hesbonio'n dda.

### Dioddefwyr yr heddlu

Pan fydd dioddefwr heddlu yn gweithio yn yr un heddlu â'r person y mae ei ymddygiad dan sylw (dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr un prif swyddog) ni allant wneud cwyn o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Nid yw hyn yn golygu na allant godi mater ymddygiad neu na ddylent gael gwybod am gynnydd yr ymchwiliad hwnnw. Canfu uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Merched mai anaml yr ymddangosai heddluoedd eu bod yn trin dioddefwyr yr heddlu fel 'unigolion â diddordeb' mewn achosion PPDA. Byddai hyn yn rhoi hawliau tebyg iddynt i achwynydd gael gwybod am gynnydd yr ymchwiliad. Yn arolwg dioddefwyr CWJ, dim ond un o'r 45 o ymatebwyr heddlu a ddywedodd fod yr heddlu'n eu trin yn bennaf fel unigolyn â diddordeb.

O'r 22 achos lle roedd y dioddefwr-oroeswr yn aelod o'r heddlu, canfuom eu bod yn cael eu trin fel unigolyn â diddordeb mewn 32% o achosion (7). Nid oedd yn bosibl penderfynu os oedd yr heddlu wedi trin dioddefwr yr heddlu fel unigolyn â diddordeb mewn 50% o achosion (11) ac nid oeddent mewn 18% (4). Mae hyn yn dangos rhywfaint o welliant o ganfyddiadau uwch-gŵyn CWJ, er i ni gydnabod bod rhywfaint o gynnydd i'w wneud o hyd. O'r 50% o achosion lle nad oedd yn bosibl penderfynu, efallai bod yr heddlu-dioddefwyr wedi cael gwybod yn briodol am gynnydd yr ymchwiliad, ond nid oedd yn bosibl penderfynu ar sail y papurau achos a oedd ar gael i ni. Trwy'r trafodaethau adborth â'r heddluoedd, roedd SAYH yn fodlon fod gan heddluoedd ymwybyddiaeth dda o'r gofyniad i drin dioddefwyr yr heddlu fel unigolion â diddordeb a bod ganddynt brosesau ar waith i sicrhau bod dioddefwyr yr heddlu yn cael eu diweddaru. Atgoffodd SAYH heddluoedd o'r gofyniad hwn yn ein cylchlythyr Oversight misol a bydd yn parhau i gael sgyrsiau â heddluoedd lle mae gennym bryderon nad yw hyn yn digwydd.

## Bregusrwydd a diogelu

Oherwydd natur y gŵyn a materion ymddygiad sy'n ymwneud â ffactor VAWG, rydym yn disgwyl y bydd achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr yn aml yn agored i niwed neu efallai y bydd angen rhyw fath o gymorth arnynt. O'r data sydd ar gael, nid ydym wedi'n darbwyllo bod gofal a diogelwch achwynydd / dioddefwr-oroeswr bob

amser yn cael ystyriaeth ddyledus, na bod penderfyniadau clir yn cael eu gwneud ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am les yr achwynydd / dioddefwr-oroeswr.

O'r achosion yr ymdriniwyd â nhw trwy ymchwiliad neu fel arall trwy ymchwiliad (OTBI) (88 o achosion), canfuom nad oedd dros hanner (61%) yr achwynwyr / goroeswyr dioddefwyr yn cael eu hystyried yn agored i niwed. Ystyriwyd bod chwarter yn agored i niwed ac yn yr achosion eraill, nid oedd asesiad yr heddluoedd yn glir. Canfuom 14 o achosion lle dylai'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr fod wedi cael ei ystyried yn agored i niwed ac nad oedd, ac 11 achos arall lle nad oedd yn bosibl penderfynu ar sail yr wybodaeth os oedd ar gael.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd cyfrifoldeb amlwg dros ofal dioddefwyr. Gallem ddisgwyl i'r ymdriniwr â'r gŵyn fod wedi cael sgyrsiau â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr am ei anghenion ac i'w gyfeirio at asiantaethau cymorth, lle'n berthnasol. Mae gan rai heddluoedd bartneriaethau da ar waith ag elusennau neu sefydliadau lleol lle gallai achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr dderbyn cymorth, naill ai oherwydd mater parhaus yn ymwneud â VAWG neu gymorth yn ystod y broses o wneud cwyn ac ymchwiliad yr heddlu. Mewn rhai achosion, bydd yr heddlu yn cymryd peth cyfrifoldeb am ofal dioddefwyr, megis trwy ei uned diogelu'r cyhoedd, eiriolwr trais domestig annibynnol (IDVA) neu eiriolwr trais rhywiol annibynnol (ISVA). Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cytuno arno a'i ddogfennu'n glir ar y ffeil. Ychydig o dystiolaeth a welsom fod hyn yn digwydd.

Ni ddisgwylir i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ddod yn arbenigwyr mewn cymorth bregusrwydd. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ofal a lles achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr gael ystyriaeth ddyledus a bod heddluoedd yn ymwybodol o ddarpariaethau lleol fel y gallant gyfeirio neu atgyfeirio pobl at y gwasanaethau hyn. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfeirio at gymorth annibynnol i ddioddefwyr, dweud wrth ddioddefwyr-oroeswyr am eu hawliau fel dioddefwr, mesurau amddiffynnol i ddiogelu unigolyn rhag y sawl a ddrwgdybir, cyfeirio at IDVA neu ISVA, neu atgyfeirio i gynhadledd asesu risg amlasiantaeth (MARAC).

Mewn un achos o gam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu, arestiwyd cyflanwr yr heddlu yn gyflym ar amheuaeth o ymosod ac ymddygiad gorfodol a rheoli. Nodwyd bod y dioddefwr-oroeswr yn agored i niwed yn y fan a'r lle a rhoddwyd cynlluniau ar waith i ddiogelu ei hiechyd meddwl. Cyfeiriwyd y dioddefwr-oroeswr at asiantaeth cymorth iechyd meddwl leol. Cyfeiriwyd hefyd at y cod ymarfer dioddefwyr (yn canolbwyntio ar hawliau dioddefwyr) a oedd yn cael ei gymhwyso.

Adroddodd aelod o’r cyhoedd wrth yr heddlu am ddigwyddiad cam-drin domestig yn ymwneud â’i chyn-bartner sy’n swyddog heddlu mewn swydd. Aeth y cyn-bartner i mewn i'w chartref, ei cham-drin yn eiriol a phoeri ati. Ni ellid dod o hyd i'r cyn-bartner, er gwaethaf ymholiadau helaeth. Yn ddiweddarach gwnaeth yr achwynydd gŵyn i’r heddlu, er iddi gael gwybod y byddai mesurau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn ei chartref, nad oedd dim wedi’i wneud ac nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiweddariad ers y digwyddiad.

Ymdriniwyd â'r gŵyn mewn ffordd arall yn hytrach na thrwy ymchwiliad. Trefnodd y sawl a oedd yn ymdrin â chwynion i wasanaeth cymorth i ddioddefwyr lleol newid y cloeon a gosod larymau ffenestri. Cysylltodd elusen leol â'r achwynydd a darparu gwybodaeth am loches leol a gwasanaethau eraill. Cwblhawyd asesiad risg gyda'r dioddefwr, a arweiniodd at sgôr risg ganolig. Fel arfer, gosodir larwm wedi'i fonitro mewn achosion risg uchel, ond gofynnodd y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn i larwm symudol gael ei anfon at yr achwynydd, er ei fod yn risg ganolig. Cynigiodd y sawl oedd yn ymdrino â'r gŵyn hefyd i swyddog atal trosedd ymweld â hi i roi cyngor.

### Argymhelliad 3

Dylai heddluoedd weithio gyda grwpiau cymorth lleol, elusennau a sefydliadau i ffurfio partneriaethau i ddarparu cymorth priodol.  Dylai fod gan ymdrinwyr â chwynion wybodaeth ac adnoddau ar gael iddynt, er mwyn iddynt wybod beth yw'r partneriaethau hynny.

### Argymhelliad 4

Pan godir cwyn VAWG neu fater ymddygiad, dylai’r rhai sy’n ymdrin â chwynion ystyried y gwendidau posibl sy’n gysylltiedig â bod yn ddioddefwr-oroeswr neu’n achwynydd mater VAWG. Dylai’r rhai sy’n ymdrin â chwynion ystyried pa gymorth y gallai fod ei angen a thrafod yr opsiynau â’r dioddefwr-oroeswr / achwynydd. Dylid dogfennu cyfrifoldeb am ofal dioddefwr-oroeswr yn y ffeil.

## Lles dioddefwyr yr heddlu

Mae dioddefwyr yr heddlu yn wynebu rhwystrau unigryw wrth adrodd am gyflawni VAWG gan yr heddlu. Gall dioddefwyr yr heddlu ofni y gallai adrodd am droseddwr heddlu gael effaith negyddol ar eu hygrededd neu eu gyrfa. Mae'n hanfodol bod dioddefwr yr heddlu yn cael ei gynorthwyo'n briodol i wneud adroddiad o VAWG.

Ar gyfer dioddefwyr yr heddlu, canfuom fod bregusrwydd yn cael ei nodi’n amlach nag ar gyfer y cyhoedd sy’n gwneud cwyn ac mae lles yn y gwaith hefyd yn cael ei

ystyried. Canfuom sawl enghraifft o ddioddefwyr yr heddlu o gam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu yn cael eu cynorthwyo trwy wasanaethau amrywiol yn y gweithle. Mewn achosion lle mae dioddefwr a chyflawnwr yr heddlu yn gweithio yn yr un heddlu, canfuom enghreifftiau o ystyriaeth a roddwyd i gymorth trwy newid patrymau sifft er mwyn atal y dioddefwr a'r cyflawnwr rhag gweithio ar yr un sifft neu symud un o weithwyr yr heddlu i adran wahanol. Rhoddwyd darpariaethau lles ar waith gyda rheolwyr llinell a goruchwylwyr. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd rhaglen cymorth gweithwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwr yr heddlu. Er bod y rhain i gyd yn enghreifftiau cadarnhaol o gynorthwyo dioddefwyr yr heddlu, rydym yn cydnabod bod lle i wella ac nad oedd pob achos a adolygwyd gennym yn gallu dangos cymorth da i ddioddefwyr yr heddlu.

Dylai heddluoedd roi blaenoriaeth i gynorthwyo dioddefwyr VAWG. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y rhai sy'n ymdrin â chwynion yn nodi bregusrwydd yn gynnar ac yn eu cyfeirio at y gwasanaethau cymorth priodol.


## Iaith

Fe wnaethom adolygu'r iaith a ddefnyddir gan y rhai sy'n ymdrin â chwynion wrth gyfathrebu ag achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr i sefydlu os oedd y cyswllt yn sensitif ac os oedd unrhyw dystiolaeth o feio'r dioddefwr. Yn aml gall beio dioddefwyr fod yn anymwybodol ac yn seiliedig ar gredoau cyffredin neu hyd yn oed rywiaeth neu gasineb at fenywod. Mae iaith, agweddau ac ymddygiadau beio'r dioddefwr yn symud y bai i'r dioddefwr-oroeswr, pan mai'r troseddwr ddylai gael ei ddal yn atebol. Mae cyfathrebu mewn ffordd sy'n rhydd rhag beio dioddefwyr yn gwella hyder dioddefwyr-oroeswyr yn y broses ac mae'n osgoi erlid ychwanegol. Fe wnaethom chwilio am dystiolaeth o:

- iaith a oedd yn canolbwyntio ar weithredoedd y dioddefwr, yn hytrach na'r troseddwr
- sylwadau a chasgliadau ynghylch diffyg ymgysylltu gan yr achwynydd / dioddefwr-oroeswr (efallai na fyddant yn gallu ymgysylltu oherwydd amrywiaeth o amgylchiadau cymhleth gan gynnwys ofn)
- cyfeiriad at ddioddefwr-oroeswr yn peidio â gadael perthynas gamdriniol felly casgliad nad yw'r gamdriniaeth mor ddifrifol ag y disgrifiwyd.
- sylwadau am faint o amser a gymerodd i achwynydd / dioddefwr-oroeswr adrodd am fater, a thrwy hynny gwestiynu dilysrwydd yr adroddiad
- iaith sy'n lleihau, yn bychanu neu'n diystyru ymddygiad neu effaith y niwed y mae person wedi'i gael er enghraifft 'lefel isel' neu 'sylwadau difrïol'

**Rydym yn cydnabod y gall iaith beio dioddefwr fod ar sawl ffurf arall**.

Yn y mwyafrif o achosion a adolygwyd gennym, canfuom fod heddluoedd yn cyfathrebu'n sensitif ag achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr wrth ymdrin â chwynion ac ychydig o dystiolaeth a welsom o iaith beio'r dioddefwr (fel y disgrifir uchod).




Mewn un enghraifft o iaith beio'r dioddefwr, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithredoedd y troseddwr heddlu, cofnododd y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn ddiffyg profiad ac oedran dioddefwr yr heddlu nad oedd yn berthnasol. Symudwyd y ffocws i awgrymu bod y diwylliant i'w ddisgwyl:

***"aelod llai profiadol, iau a mwy naïf o'r adran ... yn gweithio ar shifft o gydweithwyr gyda pherthnasoedd gwaith sefydledig sy'n gyfarwydd â'r tynnu coes a'r diwylliant swyddfa sy'n bodoli"***

Roedd enghreifftiau eraill o iaith amhriodol yn cynnwys ***'daethant yn agos'*** wrth gyfeirio at adroddiad o ymosodiad rhywiol sy'n awgrymu caniatâd ac ***'roedd hi'n ymddangos yn wirioneddol awyddus'*** wrth drafod delweddau CCTV gyda chyflawnwr heddlu yn ystod cyfweliad.

## Penderfyniadau ymdrin cychwynnol

Gwnaethom edrych ar y penderfyniadau cychwynnol a wnaed gan heddluoedd sy'n penderfynu sut yr ymdrinnir â chwyn neu fater ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys os dylai'r mater gael ei gofnodi o dan atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* ac os dylid ymdrin ag ef mewn ffordd heblaw ymchwiliad. Gellir ymdrin â chwynion y tu allan i ofynion atodlen 3 lle rhagwelir datrysiad cyflym a syml megis rhoi esboniad. Lle mae materion yn cael eu cofnodi o dan atodlen 3, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid ymchwilio i gwynion penodol. Gellir ymdrin â'r rhai nad oes angen ymchwiliad iddynt heblaw drwy ymchwiliad (OTBI) lle gall y rhai sy'n ymdrin â chwynion fod yn greadigol ynghylch pa ddatrysiad a allai fod yn rhesymol. Gweler Atodiad C am ragor o fanylion.

Canfuom fod y rhan fwyaf o heddluoedd yn defnyddio'r profion trothwy cychwynnol ac yn dewis ymdrin â chwynion mewn ffordd briodol. O'r 28 o achosion yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i atodlen 3, canfuom bedwar achos (14%) lle roeddem yn anghytuno â'r dull hwnnw o ymdrin â'r mater. Yn yr un modd, o'r 42 o achosion yr ymdriniwyd â nhw OTBI, canfuom bedwar y dylid bod wedi ymchwilio iddynt (10%).

## Cymhwyso'r meini prawf atgyfeirio gorfodol

Unwaith y bydd cwyn neu fater ymddygiad wedi'i gofnodi o dan atodlen 3, mae'n rhaid i'r awdurdod priodol asesu a ddylai'r mater gael ei gyfeirio at SAYH. Canfuom fod heddluoedd wedi cymhwyso'r meini prawf atgyfeirio gorfodol yn gywir i'r achosion VAWG yn y sampl. O'r 94 o achosion a gofnodwyd dan atodlen 3, cyfeiriwyd 13% (12 achos) at SAYH, neu 23% wrth edrych ar achosion ymchwilio yn unig. O'r achosion hynny na chawsant eu hatgyfeirio, canfuom un achos yr oedd angen ei atgyfeirio at SAYH. Cwyn oedd hon am ddiffyg ymchwiliad i honiad o ymosodiad rhywiol.

Mae hyn mewn cyferbyniad â chasgliadau uwch-gŵyn CWJ a ganfu dystiolaeth o fethiant sylweddol i atgyfeirio achosion PPDA i SAYH. Ers cyhoeddi adroddiad uwch-gŵyn CWJ ym mis Mehefin 2022, ac ochr yn ochr â'r sylw cenedlaethol cynyddol ar ymateb yr heddlu i VAWG, mae heddluoedd wedi gweithio i gyflwyno mentrau newydd a gwelliannau i brosesau a safonau. Gallai ein canfyddiadau ar gymhwyso'r meini prawf atgyfeirio gorfodol mewn achosion VAWG fod yn adlewyrchiad o welliannau o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod nifer yr achosion PPDA a gynhwysir yn y sampl hwn yn fach ac felly nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â chanfyddiadau uwch-gŵyn CWJ.

## Ymddygiad nad yw ar ddyletswydd

Mae swyddogion heddlu yn ddarostyngedig i safonau ymddygiad proffesiynol, hyd yn oed pan nad ydynt ar ddyletswydd. Mae hyn yn golygu na ddylai swyddogion heddlu ymddwyn mewn modd sy'n difrïo gwasanaeth yr heddlu nac yn tanseilio hyder y cyhoedd ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso'r cyfyngiadau hyn yn erbyn yr hawl i fywyd preifat. Canfu uwch gŵyn CWJ nad oedd adroddiadau am gam-drin domestig, lle mae'r ymddygiad yn debygol o ddigwydd oddi ar ddyletswydd, bob amser wedi'u nodi'n gywir fel camymddwyn posibl. Roedd hyn yn cynnwys rhoi gormod o bwysau ar y ffaith bod mater wedi digwydd oddi ar ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ynghylch os oedd gan swyddog achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol.

Fe wnaethom edrych i weld os oedd ymddygiad oddi ar ddyletswydd yn effeithio ar y penderfyniadau a wnaed o'r cychwyn cyntaf ynghylch sut y dylid ymdrin ag achos ac os oedd ymddygiad oddi ar ddyletswydd yn effeithio ar yr asesiad o ddifrifoldeb. Daethom i'r casgliad bod heddluoedd yn asesu ymddygiad oddi ar ddyletswydd â'r un lefel o ddifrifoldeb. Canfuom fod ymddygiad oddi ar ddyletswydd yn bresennol mewn 32 o'r 121 o achosion (26%). Nid oedd yn bosibl penderfynu os oedd yr ymddygiad ar ddyletswydd neu beidio mewn dau achos oherwydd gwybodaeth gyfyngedig am yr honiadau. O'r achosion hynny lle roedd ymddygiad oddi ar

ddyletswydd, daethom i'r casgliad fod ymddygiad oddi ar ddyletswydd wedi'i asesu â'r un lefel o ddifrifoldeb mewn 29 o achosion (91%). Yn y tri achos arall, nid oeddem yn gallu penderfynu os oedd ymddygiad oddi ar ddyletswydd wedi effeithio ar y driniaeth.

Rydym yn cydnabod i ni adolygu achosion a oedd wedi dod i sylw'r adran safonau proffesiynol (PSD) a lle roedd cwyn neu fater ymddygiad wedi'i gofnodi. Mae'n bosibl y gallai ymddygiad oddi ar ddyletswydd a adroddir y tu allan i'r system PSD – er enghraifft, i reolwyr lleol – gael effaith ar yr ystyriaeth gychwynnol ynghylch os yw adroddiad VAWG yn cael ei ystyried yn gŵyn neu'n fater ymddygiad posibl ac felly'n cael ei atgyfeirio (neu beidio) i PSD ar gyfer asesiad cychwynnol.

## Gwrthdaro buddiannau

Rydym yn gwybod, ar gyfer dioddefwyr-goroeswyr VAWG a gyflawnir gan yr heddlu, y gall fod llawer o rwystrau rhag adrodd. Mae hyn yn cynnwys yr ofn o beidio â chael eu credu, neu na fydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad diduedd oherwydd cred (go iawn neu ganfyddedig) y bydd yr heddlu yn 'amddiffyn eu rhai eu hunain'. Gallai'r gred hon gael ei dwysáu mewn achosion lle mae'r dioddefwr hefyd yn swyddog heddlu. Mae'n hanfodol fod yr heddlu'n dangos bod eu hymateb i adroddiadau am VAWG a gyflawnwyd gan yr heddlu yn ddiduedd. Un ffordd o wneud hyn yw dangos nad oes gan y sawl a benodir i drafod y gŵyn unrhyw gysylltiadau blaenorol â gwrthrych yr ymchwiliad. Bydd cysylltiadau blaenorol rhwng cydweithwyr o fewn heddlu yn debygol o danseilio hyder yn ymateb yr heddlu i'r gŵyn neu fater ymddygiad.

Canfuom nad oedd gan y rhan fwyaf o heddluoedd ddatganiadau clir ynghylch gwrthdaro buddiannau. Dywedodd yr heddluoedd yn y sampl wrthym fod ganddynt brosesau ar waith a oedd yn dibynnu ar y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn yn nodi pryd roedd gwrthdaro yn bresennol, ond ni wnaed unrhyw ddatganiadau fel arfer safonol ym mhob achos, dim ond lle roedd gwrthdaro yn bresennol. Mae hyn yn peryglu methu ystyriaethau gwrthdaro buddiannau, neu ei bod yn aneglur os cymhwyswyd ystyriaeth. Heb ddatganiad ffurfiol o wrthdaro, nid yw'n bosibl dweud yn bendant os oes gan y sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn unrhyw gysylltiad blaenorol â'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad, neu hyd yn oed y dioddefwr-oroeswr / achwynydd.

Mewn un heddlu, canfuom arfer cadarnhaol lle mae'r rhai sy'n ymdrin â chwynion yn ateb cwestiynau gwrthdaro buddiannau ar log gweithgaredd fel arfer, trwy gyfres o flychau ticio. Roedd y log gweithgaredd yn dangos a oedd gwrthdaro yn bresennol ac os oedd y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn yn addas i ymateb i'r gŵyn neu'r mater ymddygiad. Mae mynd drwy'r broses hon, hyd yn oed pan fydd ymatebion negyddol yn cael eu cofnodi, yn sicrhau bod unrhyw wrthdaro yn cael ei ystyried yn briodol a bod trywydd archwilio'r ystyriaeth honno'n glir. Yn bwysig, mae'n dangos i'r dioddefwr-oroeswr / achwynydd bod y sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn yn addas.


**Argymhelliad 5**

Dylai heddluoedd gynnwys cofnodion datganiadau gwrthdaro buddiannau fel rhai safonol ar bob achos VAWG i ddangos eu bod wedi ystyried unrhyw wrthdaro posibl ac i roi sicrwydd i ddioddefwyr-oroeswyr / achwynwyr ynghylch addasrwydd y sawl a benodir i ymdrin â’r gŵyn.

## Ymchwiliadau

Roedd y mwyafrif (48 o 51) o’r achosion yr ymchwiliwyd iddynt yn ymwneud â VAWG a gyflawnodd yr heddlu neu’r heddlu wedi cyflawni cam-drin domestig. Byddem yn disgwyl i'r mathau hyn o achosion fod yn destun ymchwiliad ffurfiol. Roedd tri achos yn ymwneud ag anfodlonrwydd â'r modd yr ymdriniwyd â mater VAWG. Ar y cyfan, canfuom fod ymchwiliadau'n cael eu trin yn dda, gydag ymholiadau rhesymol a chymesur yn cael eu gwneud ac mewn modd amserol.

### Rhesymol a chymesur




Ar gyfer yr achosion a oedd yn destun ymchwiliad (51), fe wnaethom asesu os oedd yr ymchwiliad yn rhesymol a chymesur. Roedd hyn yn cynnwys ystyried os oedd heddluoedd yn dilyn ymholiadau addas ac wedi cael tystiolaeth berthnasol. Yn y rhan fwyaf o achosion (86%), canfuom fod heddluoedd yn cynnal ymchwiliadau i faterion VAWG yr oeddem yn ystyried eu bod yn rhesymol a chymesur. Roedd hyn yn wir os oedd y mater yn gŵyn neu'n fater ymddygiad. Wrth edrych ar y gwahaniaeth rhwng

ymdrin â chwynion a materion ymddygiad, canfuom fod 89% o achosion cwynion (8 allan o 9) ac 86% o faterion ymddygiad (36 allan o 42) wedi cael eu trin yn rhesymol ac yn gymesur.

Mewn un achos, canfuom dystiolaeth fod yr heddlu yn cynnal ymchwiliad trylwyr ac yn ymgysylltu'n dda â'r dioddefwr-oroeswr. Yn ystod ymweliad gan yr heddlu â phryder am les, datgelodd y dioddefwr-oroeswr gam-drin domestig hanesyddol yn dyddio’n ôl 15 mlynedd gan ei chyn-bartner, swyddog heddlu. Nid oedd y dioddefwr-oroeswr am wneud cwyn na chynorthwyo ymchwiliad. Er hyn, ymdriniodd yr heddlu â'r adroddiad fel mater troseddol a mater ymddygiad yn erbyn yr heddwas. Gwnaeth y sawl a oedd yn ymdrin â’r gŵyn ymdrechion cadarnhaol i feithrin perthynas â’r dioddefwr-oroeswr, gan barchu'i dymuniadau ynghylch sut roedd am i rywun gysylltu â hi. Roedd hyn yn cynnwys rhoi amser i'r dioddefwr-oroeswr feddwl os oedd hi'n dymuno cynorthwyo ymchwiliad. Darparodd y dioddefwr-oroeswr wybodaeth ychwanegol, ond dewisodd beidio â gwneud datganiad. Cwblhawyd asesiad risg gyda'r dioddefwr i sicrhau ei diogelwch.

Er gwaethaf tystiolaeth gyfyngedig a oedd ar gael, fe wnaeth yr heddlu drin y mater o ddifrif. Cafwyd datganiad gan y swyddog oedd yn destun yr honiad. Oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig oedd ar gael, daeth yr heddlu i'r casgliad na fyddai unrhyw gamau ychwanegol yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, atgoffodd yr heddlu y dioddefwr-oroeswr y gallai hi gysylltu â nhw i wneud datganiad ar unrhyw adeg ac y byddent yn gwrando ar ei hadroddiad pe bai'n newid ei meddwl.

Daethom o hyd i achos arall o arfer cadarnhaol ar adroddiad o aflonyddu rhywiol yr ymdriniwyd ag ef o ddifrif ac yr ymchwiliwyd iddo’n drylwyr. Adroddodd aelod o staff yr heddlu sylwadau amhriodol a wnaed iddi gan heddwas am ei gwisg. Cymerwyd datganiad gan ddioddefwr yr heddlu a chafodd y mater ei gategoreiddio fel camymddwyn difrifol. Adolygodd yr heddlu hanes cwynion y swyddog i weld os oedd patrwm ymddygiad gydag unrhyw ddigwyddiadau eraill a adroddwyd. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw un. Cyfwelwyd yr heddwas a chafwyd adroddiadau gan dystion. Yn ystod ei gyfweliad, myfyriodd yr heddwas ar sut y canfyddwyd ei sylwadau. Cyfeiriwyd y swyddog at y broses adolygu ymarfer myfyriol (RPRP). Mae'r broses hon yn rhoi'r cyfle i fyfyrio ar weithredoedd ac ymddygiad, ac yn hyrwyddo dysgu a gwelliant. Roedd yn amlwg yn yr ymchwiliad hwn fod yr heddlu wedi trin yr adroddiad o ddifrif ac wedi cynnal ymchwiliad diduedd.


## Patrymau ymddygiad

Pan ddaw cwyn neu fater ymddygiad i’r amlwg, mae SAYH yn disgwyl i heddluoedd ystyried os oes patrwm o ymddygiad yn dod i’r amlwg gyda’r heddwas dan amheuaeth neu os oes digwyddiadau eraill yn hanes ei gwynion a allai fod yn berthnasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion VAWG lle, er enghraifft, gallai ymddygiad rheibus fod yn dod i'r amlwg yn y modd y mae swyddog yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â phobl sy'n agored i niwed. Efallai y bydd achosion lle nad yw ymddygiad ar ei ben ei hun yn ymddangos yn bryderus i ddechrau, megis negeseuon testun cyfeillgar i ddioddefwr trosedd, ond fel patrwm, gallai’r ymddygiad fod yn gyfystyr â chamddefnydd o safle at ddiben rhywiol (APSP). Nid yn unig y mae asesu patrymau ymddygiad yn cryfhau’r dystiolaeth sydd ar gael, gall hefyd ddiogelu dioddefwyr posibl eraill o ymddygiad tebyg, megis dioddefwyr sy'n agored i niwed y gallai’r swyddog ddod i gysylltiad â nhw neu berthnasoedd personol newydd. Pan fydd dioddefwr heddlu yn gwneud cwyn am ymddygiad digroeso yn y gweithle, mae’n bwysig ystyried os oes honiadau tebyg wedi’u gwneud yn erbyn yr heddwas a ddrwgdybir neu, yn wir, os oes angen amddiffyniad neu gymorth ar eraill sy’n gweithio ochr yn ochr â’r heddwas dan amheuaeth.

Canfuom nad yw heddluoedd yn ystyried patrymau ymddygiad mewn achosion lle byddai'n berthnasol gwneud hynny. Roedd yn amlwg mai dim ond mewn 35% o achosion yr ystyriwyd patrwm ymddygiad. Lle roedd patrwm o ymddygiad yn cael ei ystyried, canfuom enghreifftiau o’r sawl a oedd yn ymdrin â’r gŵyn yn ystyried hanes o gam-drin domestig a oedd yn rhan fawr o’r penderfyniadau cychwynnol. Mewn achosion APSP eraill, adolygwyd cyfrifon ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol i benderfynu os oedd digwyddiadau eraill o gysylltiad amhriodol â dioddefwyr sy'n agored i niwed. Ac ar gyfer mater ymddygiad mewnol, rhoddwyd cyfle i bob aelod o adran godi pryderon am ymddygiad digroeso, gan ganiatáu i'r sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn gynnwys unrhyw batrymau yn eu hystyriaethau tystiolaethol.

Mewn un achos o ymddygiad rhywiol digroeso yn y gwaith, ystyriwyd ymddygiad a adroddwyd yn flaenorol yn erbyn yr heddwas dan amheuaeth. Dywedodd cydweithiwr benywaidd fod swyddog gwrywaidd wedi gwneud iddi deimlo’n anghyfforddus trwy syllu arni a thrwy naws ei sgyrsiau. Roedd adroddiadau blaenorol o’r ymddygiad hwn lle roedd y swyddog gwrywaidd wedi derbyn bod ei ymddygiad yn gwneud i fenywod deimlo’n anghyfforddus. Cafodd ei roi ar gynllun gweithredu 12 mis anffurfiol a daeth yr ymddygiad digroeso i ben. Unwaith y daeth y cynllun i ben, dechreuodd yr ymddygiad eto. Ystyriwyd hyn wrth wneud penderfyniad ar yr achos diweddar ac arweiniodd at ymyrraeth ffurfiol gadarn a rheolaeth ar ei ymddygiad.

## Amseroldeb




O fewn yr achosion a adolygwyd, canfuom fod ymchwiliadau VAWG yn cael eu trin mewn modd amserol ac yn gyflymach na’r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob ymchwiliad i gŵyn. Cwblhawyd bron hanner (49%) yr ymchwiliadau a adolygwyd o fewn 0-3 mis. Y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ymchwiliadau i gwynion yn yr un cyfnod (2022-2023) yw 5 mis neu 159 diwrnod. Daethom i'r casgliad fod yr amserlen ar gyfer ymchwiliadau yn gymesur mewn 85% o achosion. Cymerodd un mater ymddygiad 12 i 18 mis i ymchwilio iddo, a phenderfynwyd bod hyn yn briodol o ystyried yr ymholiadau hirfaith sydd eu hangen ar gyfer cam-drin swydd ar gyfer ymchwiliad pwrpas rhywiol a’r amser a dreuliodd y mater gyda thîm cyfreithiol yr heddlu. Mewn rhai achosion, roedd yn anodd penderfynu os oedd yr amser a gymerwyd yn gymesur gan nad oedd yn glir pa gamau a gymerwyd o'r cofnodion a oedd ar gael.

Darparodd un achos enghraifft ardderchog o ble y gellir cymryd camau cyflym i ymateb i ymddygiad amhriodol mewn ffordd sy'n ennyn hyder.

Roedd wyth o swyddogion heddlu benywaidd yn cael cinio yn y ffreutur. Roedd dau aelod gwrywaidd o staff yr heddlu yn eu gwylio ac yn syllu arnynt mewn ffordd a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. Roedd y gwrywod yn siarad ac yn chwerthin mewn modd a oedd yn ei gwneud yn glir eu bod yn siarad am y menywod. Gwelwyd yr ymddygiad hefyd tuag at ferched eraill. Adroddodd y swyddogion benywaidd am yr ymddygiad amhriodol.

O fewn **un awr**, siaradodd swyddog ymchwilio o PSD â dioddefwyr yr heddlu a chymryd eu hadroddiadau. Yr un prynhawn, cyfeiriwyd gwybodaeth at adran adnoddau dynol yr heddlu (y broses ar gyfer aelodau o staff yr heddlu). Canlyniad yr adroddiad oedd arfer myfyriol ar gyfer yr aelodau gwrywaidd o staff.

## Canlyniadau

Ar ddiwedd ymchwiliad lleol, mae'n rhaid i'r awdurdod priodol benderfynu ar ganlyniad y gŵyn neu fater ymddygiad a pha gamau (os o gwbl) y dylid eu cymryd. Bydd y canlyniadau hynny'n wahanol yn dibynnu os oedd yr ymchwiliad yn destun gweithdrefnau arbennig neu beidio. Mae gweithdrefnau arbennig yn berthnasol ar gyfer unrhyw ymchwiliad i fater ymddygiad cofnodadwy, ac unrhyw gŵyn lle mae arwydd bod gweithiwr heddlu wedi cyflawni trosedd neu wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau achos troseddol.

Ar gyfer ymchwiliadau sy'n destun gweithdrefnau arbennig, dylid penderfynu a oes gan weithiwr heddlu achos i'w ateb am gamymddwyn, camymddwyn difrifol neu nad oes ganddo achos i'w ateb. Ar gyfer ymchwiliadau nad ydynt yn weithdrefn arbennig, dylid penderfynu os oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol neu beidio. Gellir ddod i'r casgliad nad oedd modd penderfynu os oedd yn dderbyniol. Dylid dibynnu ar hyn o dan amgylchiadau cyfyngedig.

Ar gyfer y 48 ymchwiliad a oedd yn destun gweithdrefnau arbennig, gwnaed y penderfyniadau achos i ateb canlynol:

| Penderfyniad achos i ateb | Mater ymddygiad<br>42 o achosion | Cwynion<br>5 achos |
|---|---|---|
| **Camymddwyn difrifol** | 5 | 1 |
| **Camymddwyn** | 5 | |
| **Dim achos i'w ateb** | 26 | 4 |
| **Dim penderfyniad wedi'i wneud** | 6* | |

* Nid oedd gan chwech achos unrhyw benderfyniadau achos i'w hateb oherwydd daeth yr ymchwiliad i ben cyn i benderfyniad gael ei wneud. Roedd hyn oherwydd nifer o resymau megis cau'r mater gan na ddatgelwyd unrhyw droseddau neu gan fod prosesau cyflogaeth eraill ar gyfer swyddogion prawf wedi cael blaenoriaeth. Mewn dau achos, roedd yr ymchwiliad yn dal yn fyw ac nid oedd penderfyniad wedi cael ei wneud. Er bod y meini prawf dethol achosion ar gyfer achosion a gaewyd, fe wnaethom adolygu'r achosion hyn yn llawn pan ddaeth i'r amlwg fod yr ymchwiliadau yn dal yn fyw. Dewisasom gynnwys yr wybodaeth berthnasol a adolygwyd gennym, gan nad oeddem yn gallu gwneud sylwadau ar y penderfyniadau canlyniad a wnaed yn unig.

Fel yr eglurwyd uchod, bydd gan bob mater ymddygiad benderfyniad achos i ateb.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw achosion lle roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad achos i'w ateb. Gwnaethom gytuno â'r penderfyniad achos i'w ateb ym mhob un o'r pump achos cwyn. O ran y materion ymddygiad, roeddem yn cytuno â'r penderfyniad achos i'w ateb mewn 74% (31 allan o 42) o achosion. Yn yr achosion eraill, nid oeddem yn gallu gwneud penderfyniad oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys rhesymau annigonol a roddwyd dros y penderfyniad neu wybodaeth annigonol am yr ymholiadau a gynhaliwyd i gyrraedd y penderfyniad.

Ar gyfer yr 11 achos lle roedd achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, aeth chwech achos i wrandawiad camymddwyn, arweiniodd tri at gyfarfod camymddwyn ac roedd yn aneglur mewn dau achos.

I'r rhai a arweiniodd at wrandawiad camymddwyn; ni chynhaliwyd dau wrandawiad, mewn dau achos ymddiswyddodd aelod o staff yr heddlu cyn y gellid cynnal y gwrandawiad ac mewn un achos, cafodd y swyddog ei ddiswyddo. Roedd hwn yn achos lle gwnaeth rhingyll heddlu sylwadau rhywiol i swyddog iau o fewn y tîm. Ategwyd yr ymddygiad amhriodol gan dystion lluosog, gyda thystiolaeth i awgrymu bod yr ymddygiad wedi parhau hyd yn oed ar ôl cael ei herio. Gwnaeth y panel yn y gwrandawiad camymddwyn benderfyniad i ddiswyddo'r swyddog ar sail difrifoldeb yr ymddygiad a'i effaith ar ddioddefwr yr heddlu. Cymerodd yr heddlu yr adroddiad o ddifrif gan ddangos agwedd ddiduedd at gael gwared â swyddogion sydd ag agweddau rhywiaethol neu gas at fenywod.

Gwelsom bedwar achos ymddygiad lle roedd y canlyniad yn amhriodol. Ym mhob un o'r pedwar achos, daethom i'r casgliad y byddai arfer myfyriol wedi bod yn addas ar gyfer y gweithiwr dan sylw.

Mewn un achos ymddygiad, dangosodd yr heddlu ymateb diwylliannol da i'r adroddiad o ymddygiad amhriodol gan gydweithiwr drwy ddogfennu yn yr adroddiad:


> ***"Dylai staff allu dod i'r gwaith a chael amgylchedd sy'n rhydd o sylwadau amhriodol sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus. Rydym yn ymdrechu i wneud y gweithle yn gynhwysol o bawb ac mae addysg yn chwarae rhan."***

Mewn achos ymddygiad tebyg arall, gwrthdrodd yr awdurdod priodol argymhelliad y swyddog ymchwilio i beidio â gweithredu ar ran y swyddog heddlu dan sylw ac yn lle hynny, anfonodd ef i'r broses adolygu ymarfer myfyriol (RPRP). Hefyd, derbyniodd yr adran gyfan lle digwyddodd yr ymddygiad amhriodol hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant i ddeall a chanolbwyntio ar ffiniau.Mae hon yn enghraifft gadarnhaol o benderfyniadau priodol yr awdurdod yn darparu lefel o sicrwydd ansawdd dros yr ymchwiliad a'i argymhellion.

Y cam mwyaf cyffredin a gymerwyd o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn VAWG oedd dim camau ychwanegol (40%). Mae hyn yn unol â'r modd yr ymdrinnir â materion

cwynion yn gyffredinol. Ar gyfer pob cwyn a drafodwyd yn ffurfiol yn 2022/23, arweiniodd 40% at beidio â chymryd unrhyw gamau ychwanegol. Roedd gan ychydig dros hanner y rheini (52%) o leiaf un honiad a arweiniodd at esboniad neu ymddiheuriad.

Nid yw materion ymddygiad yn cynnwys camau gweithredu yn cael eu cofnodi yn yr un ffordd ag achosion cwynion. Er enghraifft, nid yw esboniad nac ymddiheuriad yn berthnasol gan nad oes achwynydd.




*Nodwch: Gall mwy nag un canlyniad gael ei gofnodi mewn ymchwiliad.*

O'r naw ymchwiliad i gŵyn, roeddem yn cytuno â'r canlyniadau ym mhob un o'r rheini. Mae hyn yn cynnwys cytundeb â phenderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau.


## Ymdrin heblaw trwy ymchwiliad

O’r achosion yr ymdriniwyd â nhw’n ffurfiol, heblaw drwy ymchwiliad (OTBI), roedd y mwyafrif (39 o 42 o achosion) yn gwynion o anfodlonrwydd ynghylch y modd yr ymdriniwyd â mater VAWG. Disgwyliwn i'r mathau hyn o achosion gael eu trin yn y modd hwn. Roedd llawer yn ymwneud â'r wybodaeth a gafodd dioddefwr-oroeswr, neu ddiffyg diweddariadau yn ystod ymchwiliad heddlu i fater VAWG. Yn y tri achos arall, roedd y mater yn ymwneud â VAWG a gyflawnodd yr heddlu neu achosion o gam-drin domestig gan yr heddlu.

Canfuom fod 38 o'r 42 achos yn addas i'w trin yn y modd hwn. O'r pedwar achos lle roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad i ymdrin â'r mater, roedd hyn yn seiliedig ar ddifrifoldeb y gŵyn a phenderfyniad y byddai ymchwiliad wedi bod yn fwy addas i fynd i'r afael â'r pryderon.

Dim ond dau o'r 42 o achosion yr ymdriniwyd â nhw â OTBI oedd yn faterion ymddygiad, roedd y gweddill yn gwynion gan y cyhoedd.

## Rhesymol a chymesur




O'r 42 o achosion yr ymdriniwyd â nhw gan OTBI, gwnaethom benderfynu yr ymdriniwyd â 30 o achosion (71%) yn rhesymol ac yn gymesur. Daethom o hyd i bedwar achos a oedd yn mynd y tu hwnt i hynny. Mewn dau achos, gwnaethom benderfynu bod yr ymdriniaeth yn syrthio'n brin iawn. Mewn un achos, rhuthrwyd yr ymdriniaeth i ganlyniad, a phenderfynwyd na ddilynwyd y broses yn gywir. Roeddem hefyd o’r farn nad oedd yr ymateb yn ddiduedd gan ei fod yn ymddangos ei fod yn amddiffyn testun y gŵyn gan y swyddog. Yn yr achos arall, a oedd yn gŵyn am y modd yr ymdriniwyd â mater troseddol, methodd y sawl a oedd yn ymdrin â’r gŵyn ag ystyried unrhyw ran o ddigwyddiad y drosedd wreiddiol a gwnaeth benderfyniad a oedd yn cymeradwyo gweithredoedd y swyddog adolygu tystiolaeth yn unig, heb unrhyw asesiad annibynnol o’r tystiolaeth.

## Amseroldeb

O'r achosion a adolygwyd gennym yr ymdriniwyd â nhw â OTBI, canfuom fod y mwyafrif (95%) wedi dod i ben o fewn amserlen gymesur. Roedd bron i dri chwarter yr achosion yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob cwyn.

Cafodd saith deg y cant o achosion eu datrys o fewn 0-3 mis. Y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ymdrin ag achosion OTBI yw 3 mis neu 97 diwrnod. Cymerodd y 30% arall o achosion 3-6 mis.

## Canlyniadau


Pan ymdriniwyd â chwyn OTBI, ar y diwedd, dylai'r sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn benderfynu os oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu yn dderbyniol neu'n annerbyniol.

Canfuom fod achosion yn ymwneud â VAWG yn fwy tebygol o ganfod bod y gwasanaeth a ddarperir gan yr heddlu yn annerbyniol, na'r cyfartaledd ar gyfer pob cwyn. Roeddem yn cytuno â'r canlyniad yn y mwyafrif o achosion (83%).

O'r 42 o achosion yr ymdriniwyd â OTBI, roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn dderbyniol mewn 23 o achosion (55%), a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob cwyn yw 67%. Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn annerbyniol mewn 11 achos (26%), y cyfartaledd cenedlaethol yw 14%. Mewn dau achos canfu'r sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn nad oedd yn gallu penderfynu. Mewn rhai achosion, ni ddilynwyd y broses yn gywir, ac nid oedd yn eglur o'r llythyr terfynol at yr achwynydd a oedd penderfyniad wedi'i wneud.

Mewn pump o'r achosion, canfuom nad oedd y penderfyniad yn gywir. Mewn dau o'r achosion hyn, fe wnaethom asesu y dylai'r mater fod wedi cael ei drin drwy ymchwiliad ffurfiol. Yn yr achosion eraill, roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad bod y gwasanaeth a ddarperir yn dderbyniol oherwydd bod y sawl a oedd yn ymdrin â'r gŵyn wedi nodi rhai meysydd i'w gwella neu i'w dysgu. Felly, byddai wedi bod yn fwy priodol adlewyrchu'r canfyddiadau hynny yn y penderfyniadau a wnaed.

Ar ddiwedd yr ymdriniaeth ac eithrio drwy ymchwiliad, dylai'r awdurdod priodol ystyried pa gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl, i unioni'r anfodlonrwydd. Ar gyfer yr achosion VAWG a adolygwyd gennym, y canlyniad mwyaf tebygol oedd esboniad.




*Nodwch: Gall achos gael mwy nag un canlyniad wedi'i gofnodi.*

O'r 59 canlyniad a gofnodwyd, arweiniodd 39% at esboniad i'r achwynydd (23), ni chymerwyd unrhyw gamau ychwanegol mewn 20% (12), arweiniodd 15% at arfer myfyriol i'r swyddog (9) ac ymddiheurwyd mewn 14% o achosion (8). Mae hyn yn unol â'r ystadegau cenedlaethol ar gyfer cwynion yr ymdriniwyd â nhw'n ffurfiol lle mai'r canlyniad mwyaf tebygol yw esboniad neu ymddiheuriad (52% o achosion) ac yna peidio â chymryd unrhyw gamau ychwanegol (40%). Mae hyn yn dangos bod achosion VAWG yr ymdrinnir â nhw OTBI yn llai tebygol o arwain at ddim gweithredu ychwanegol, o gymharu â chwynion yn gyffredinol.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael i ni, penderfynom fod y camau a gymerwyd yn briodol mewn 86% o achosion. Mae hyn yn dangos bod heddluoedd yn dod i gasgliadau priodol, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, yn y mwyafrif o achosion a adolygwyd. Nid oeddem yn gallu penderfynu ar bump achos oherwydd yr wybodaeth a oedd ar gael.

## Ymdrin y tu allan i atodlen 3

Materion yr ymdrinnir â nhw y tu allan i atodlen 3 (hynny yw, yr ymdrinnir â nhw'n anffurfiol) yw'r rhai y gall y rhai sy'n ymdrin â chwynion ymateb iddynt yn gyflym a heb fynd ar ôl ymholiadau hirfaith. Er enghraifft, drwy ddarparu diweddariad ar ymchwiliad troseddol.

O'r 28 o achosion yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i atodlen 3, canfuom bedwar achos (14%) lle roeddem yn anghytuno â'r dull hwnnw o ymdrin ag ef ac y dylid bod wedi'i

gofnodi'n ffurfiol. Roedd hyn yn seiliedig ar y math o gŵyn a wnaed a'r ymateb gofynnol. Er enghraifft, rhyw fath o ymholiad i fynd i'r afael â'r anfodlonrwydd.

Er bod y rhan fwyaf o'r cwynion yn addas i'w trin yn y modd hwn, canfuom ar ôl siarad â'r heddluoedd fod gan nifer fach broses lle maent yn ceisio ymdrin â mwyafrif y cwynion yn anffurfiol yn y lle cyntaf, fel mater o drefn. Nid yw'r arfer hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth ar gyfer ymdrin â chwynion. Nid yw bob amser yn addas ceisio ymdrin â phob cwyn yn anffurfiol, a dylid asesu cwyn ar sail difrifoldeb y materion a godwyd, y ffordd fwyaf priodol o ymateb i'r cwynion hynny, a dymuniadau'r achwynydd. Cymerasom gamau i weithio gyda'r heddluoedd hyn yn unigol i'w hatgoffa i gymhwyso'r profion trothwy yn y cam asesu cychwynnol ac i ddarparu arweiniad i wella eu prosesau. Rydym yn fodlon fod yr heddluoedd hyn bellach yn deall gofynion y ddeddfwriaeth a byddwn yn parhau i fonitro ei chymhwysiad.

Roedd 27 o'r 28 achos yn ymwneud â chwynion am anfodlonrwydd â'r modd yr ymdriniwyd â mater VAWG. Roedd llawer o'r rhain yn gwynion ynghylch diffyg gwybodaeth a dderbyniwyd. Byddem yn disgwyl i'r achosion hyn gael eu trin yn anffurfiol lle, yn aml, y cyfan sydd ei angen yw diweddariad neu esboniad. Dosbarthwyd yr achos terfynol fel VAWG a gyflawnwyd gan yr heddlu lle cwynodd gweithiwr rhyw fod heddwas wedi poeri arni a'i bod yn cael ei cham-drin yn eiriol. Roedd hwn yn un o'r achosion lle penderfynasom nad oedd ymdriniaeth anffurfiol yn briodol.

Adroddodd achwynydd ei hanfodlonrwydd gyda'r ffordd roedd yr heddlu wedi ymateb i achos o stelcian ac aflonyddu a diffyg diweddariadau a dderbyniwyd. Mynegodd yr achwynydd ei bod yn ofni am ei diogelwch gan fod y troseddwr yn rhydd. Nid oedd bellach yn gallu byw gyda'i phlant ac nid oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan yr heddlu am ymddangosiadau a chanlyniad y troseddwr yn y llys. Gadawodd yr achwynydd yr ardal mewn ofn am ei diogelwch ac roedd yn byw mewn gwesty, i ffwrdd oddi wrth ei phlant. Nid oedd yn gallu cael unrhyw wybodaeth ac ni dderbyniodd unrhyw ymateb i'w hymdrechion i gysylltu â'r heddlu.


Nid oedd y mater hwn yn addas i'w drin y tu allan i atodlen 3. Cyfyngodd yr heddlu gwmpas y gŵyn i'r ffaith mai dim ond angen diweddariad oedd ar yr achwynydd. Mae gennym bryderon ehangach ynghylch sut yr ystyriodd yr heddlu ddiogelwch yr achwynydd a'u hymateb i'w bregusrwydd. Dylai'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn fod wedi cynnwys os oedd yr heddlu wedi diogelu'r achwynydd yn briodol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i ddioddefwr diamddiffyn. Nid oedd tystiolaeth chwaith bod yr heddlu wedi gofyn i'r achwynydd sut yr hoffai i'r mater gael ei drin ac os hoffai i'r gŵyn gael ei chofnodi'n ffurfiol.

## Amseroldeb

O'r 28 achos yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol, ymdriniwyd â 19 (68%) o fewn 0-2 wythnos ac fe gymerodd un achos 2-4 wythnos. Dyma'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl ar gyfer achosion sy'n cael eu trin yn anffurfiol sydd â'r nod o ddod o hyd i ateb cyflym heb yr angen am ymholiadau hirfaith. Mae hyn yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ymdrin â chwynion yn anffurfiol, sef 16 diwrnod. Roedd chwech achos a gymerodd 1-3 mis a dau achos a gymerodd 3-6 mis. Mae cymryd ychydig fisoedd i ddatrys cwyn yn anffurfiol yn fwy na’r disgwyl ac mae’n arwydd bod angen ymdrin â’r mater yn ffurfiol.

## Canlyniadau

Y cam mwyaf cyffredin o ganlyniad i gwynion a gafodd eu trin yn anffurfiol oedd eglurhad a roddwyd i'r achwynydd (53%). Mae hyn yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol o 58%. Mae nifer y cwynion VAWG yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol gan arwain at ddim gweithredu (18%) yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer pob cwyn yr ymdriniwyd â hi'n anffurfiol (21%). Arweiniodd naw y cant o gwynion VAWG yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol at ymddiheuriad.




*Nodwch: Gall achos gael mwy nag un canlyniad wedi’i gofnodi.*

Roeddem yn cytuno â'r camau a gymerwyd mewn 67% (18) o'r cwynion. Mewn wyth achos, nid oeddem yn gallu dod i benderfyniad ynghylch os oedd y camau a gymerwyd yn briodol neu beidio, oherwydd diffyg gwybodaeth a gofnodwyd. Yn y mwyafrif o achosion, rhoddwyd diweddariad llafar i'r achwynydd gydag ychydig iawn o gofnod ysgrifenedig, os o gwbl, o'r sgwrs ar Centurion. Ar gyfer cwynion yr

ymdrinnir â nhw'n anffurfiol, byddem yn disgwyl i gofnodion ysgrifenedig fod yn llawer llai nag ar gyfer yr achosion hynny yr ymdrinnir â nhw'n ffurfiol. Er enghraifft, nid oes gofyniad i gynhyrchu adroddiad manwl am yr ymdriniaeth. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i systemau heddlu gofnodi digon o wybodaeth i allu penderfynu pa gamau a gymerwyd a pha wybodaeth a roddwyd i'r achwynydd. Lle byddai achwynydd yn cael ei ddiweddaru ar lafar am yr ymdriniaeth anffurfiol, byddem yn disgwyl i nodyn cryno gael ei ychwanegu at Centurion i ddogfennu'r sgwrs honno. Nid oes angen i hyn fod yn hirfaith ac yn fiwrocrataidd. Gallai enghraifft o nodyn fod yn syml:

> ‘*Wedi siarad â’r achwynydd heddiw ac wedi rhoi ddiweddariad ar gynnydd yr ymchwiliad i aflonyddu. Wedi esbonio bod y swyddog yn mynd i gysylltu â hi yr wythnos hon ac yn ymddiheuro eu bod wedi bod ar wyliau ers pythefnos. Rwyf wedi ymddiheuro am y diffyg diweddariadau a dderbyniwyd ac roedd yr achwynydd yn hapus â’r esboniad a ddarparwyd.’*

Mae’r crynodeb byr hwn yn rhoi digon o fanylion i ddeall bod esboniad wedi’i roi, ymddiheuriad wedi’i anfon a bod y mater wedi’i ddatrys i foddhad yr achwynydd. Yn yr achosion a adolygwyd gennym, nid oedd bob amser yn bosibl penderfynu beth oedd y canlyniad na'r camau gweithredu.

Roedd dau achos lle roeddem yn teimlo nad oedd y ffordd yr ymdriniwyd â’r gŵyn yn rhesymol ac roeddem yn anghytuno â’r camau a gymerwyd. Roedd hyn yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys iaith ansensitif, diffyg ymgysylltu â'r achwynydd, dim camau'n cael eu cymryd neu ddim yn bosibl deall pa gamau a gymerwyd.

**Argymhelliad 6**

Dylai heddluoedd wneud gwelliannau i gadw cofnodion ar gyfer cwynion yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol a chymhwyso rhai safonau sylfaenol. Dylai systemau'r heddlu gofnodi digon o wybodaeth i ddangos pa gamau a gymerwyd a pha wybodaeth a roddwyd i'r achwynydd. Lle cafodd achwynydd ei ddiweddaru'n llafar am yr ymdrin anffurfiol, dylai nodyn crynodeb byr ddogfennu'r sgwrs honno.

## Cyfathrebu'r canlyniad

Ar ddiwedd y broses o ymdrin â'r gŵyn, dylai achwynydd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr ymdriniaeth. Ar gyfer cwynion sy'n cael eu trin yn anffurfiol (y tu allan i atodlen 3), mae hyn yn aml yn alwad ffôn yn egluro pa gamau a gymerwyd. Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r sgwrs ffôn. Ar gyfer cwynion yr ymdrinnir â nhw o fewn atodlen 3, dylai'r achwynydd dderbyn y canlyniad yn ysgrifenedig yn egluro pa ymholiadau a gynhaliwyd a chanlyniad yr ymholiadau hynny. Yn dibynnu ar ddewisiadau cyswllt yr achwynydd, efallai y bydd y canlyniad hefyd yn cael ei drafod wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Mae'n hanfodol, ar ddiwedd eu cwyn, bod achwynydd yn glir ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd â'i gŵyn/chwyn, pa gamau a gymerir (os o gwbl) ac a nodwyd unrhyw ddysgu. Lle'r ystyriwyd ei fod yn gymesur peidio â gweithredu ymhellach ar fater, dylid esbonio'r rhesymau dros hyn yn glir. Ar gyfer materion ymddygiad sy'n ymwneud â dioddefwyr yr heddlu, mae ganddynt hawl i gael eu trin fel unigolyn â diddordeb a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y mater ymddygiad.

Ar gyfer materion VAWG, mae'n bwysig ystyried sut mae achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr am i ganlyniad yr ymdriniaeth gael ei gyfathrebu, pa gymorth y gall fod ei angen arnynt i ddeall canlyniad yr ymdriniaeth ac i ystyried eu hanghenion penodol neu eu gwendidau.

Fe wnaethom adolygu ansawdd cyfathrebu'r canlyniad i achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr. Gwnaethom edrych i weld a roddwyd digon o wybodaeth iddynt ddeall yn iawn sut yr ymdriniwyd â'r mater, a aethpwyd i'r afael â'r holl faterion yr adroddwyd arnynt ac a roddwyd rhesymeg glir dros y canfyddiadau. Fe wnaethom hefyd asesu os oedd yr iaith yn glir ac yn hygyrch, yn ddiduedd ac yn sensitif, a chydnabuwyd unrhyw niwed a achoswyd lle'n briodol. Canfuom fod adroddiadau canlyniadau ar gyfer achosion yr ymdriniwyd â nhw yn ffurfiol yn gywir ac yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd mewn tri chwarter o'r achosion a adolygwyd.

O'r 28 o achosion yr ymdriniwyd â nhw y tu allan i atodlen 3, darparwyd hanner y canlyniad yn ysgrifenedig (13) a diweddarwyd hanner ar lafar (11). Canfuom bedwar achos lle nad oedd yn eglur sut yr oedd yr achwynydd yn cael ei ddiweddaru, oherwydd nad oedd cofnod ar y ffeil. Canfuom fod y canlyniad wedi'i gyfleu'n briodol mewn 64% o achosion (18). Yn yr achosion eraill, naill ai nid oedd y canlyniad wedi'i gyfleu'n briodol neu nid oedd yn bosibl penderfynu oherwydd nad oedd y ffeil yn cynnwys gwybodaeth am y drafodaeth â'r achwynydd. Mewn rhai achosion, ni ddarparwyd digon o wybodaeth am y broses ac mewn un achos, daethom i'r casgliad bod y cyfathrebu yn oer ac yn amhersonol.

Ar gyfer achosion cwynion yr ymdriniwyd â nhw o fewn atodlen 3, canfuom fod adroddiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu i'r achwynydd bron ym mhob achos (48 allan o 49). Nid oedd yr un peth yn wir am achosion ymddygiad, lle canfuwyd dim ond pump o 44 o achosion lle darparwyd adroddiad i'r dioddefwr-oroeswr ar y diwedd. Er nad yw'n ofynnol ym mhob achos, byddem yn disgwyl i'r ffigur hwn fod yn uwch. Canfuom saith achos lle darparwyd diweddariad llafar yn lle hynny i'r dioddefwr-oroeswr a phenderfynom fod hyn yn briodol oherwydd dymuniadau'r dioddefwr-oroeswr. Mewn rhai achosion ymddygiad, nid oes bob amser dioddefwr-oroeswr neu unigolyn â diddordeb adnabyddadwy. Mewn rhai o'r achosion a adolygwyd gennym, nodwyd mater ymddygiad ond nid oedd y dioddefwr-oroeswr yn dymuno cymryd rhan yn y broses na mynd ar drywydd y mater mewn unrhyw ffordd, ond yn gywir, parhaodd yr ymchwiliad ymddygiad. Rydym yn gwybod fod uwch-gŵyn CWJ wedi canfod nad oedd dioddefwyr yr heddlu yn cael eu trin fel partïon â diddordeb sydd â hawl i wybodaeth am ymchwiliad i fater ymddygiad. Mae ein canfyddiadau'n cefnogi'r ffaith, mewn achosion ymddygiad, na wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth bod dioddefwr-oroeswr neu unigolyn â diddordeb yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar

ganlyniad yr ymchwiliad i ymddygiad. Ysgrifennir adroddiad o'r ymchwiliad ymddygiad at ddibenion mewnol ac i ymateb i'r mater ymddygiad. O’n hadolygiad, ni ddaethom o hyd i dystiolaeth bod dioddefwyr-goroeswyr / unigolion â diddordeb naill ai’n cael copi o’r adroddiad ymddygiad neu’n cael eu diweddaru mewn ffordd arall am ganlyniad yr ymchwiliad.

### Argymhelliad 7

Dylai heddluoedd fodloni eu hunain bod ganddynt brosesau ar waith i sicrhau bod dioddefwyr-oroeswyr neu unigolion â diddordeb mewn ymchwiliad ymddygiad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad yr ymchwiliad ymddygiad. Gellir cyfathrebu'r canlyniad trwy roi copi o adroddiad yr ymchwiliad ymddygiad iddynt, lle'n briodol, neu drwy ddulliau eraill y cytunwyd arnynt â’r dioddefwr-oroeswr, megis wyneb yn wyneb. Lle mae'r canlyniad yn cael ei gyfathrebu ar lafar, dylai cofnod o'r sgwrs gael ei wneud.

Archwiliwyd os oedd adroddiadau canlyniad yn grynodeb cywir o'r ymchwiliad neu'r ymdriniaeth ac a aethpwyd i'r afael â phob cwyn neu adroddiad. Ar gyfer pob achos yr ymdriniwyd ag ef yn ffurfiol lle ysgrifennwyd adroddiad (91), canfuom fod tri chwarter (68) yn cynnwys crynodeb cywir o'r modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn neu'r mater ymddygiad. Yn yr un modd, canfuom mewn 77% o achosion yr ymdriniwyd â nhw yn ffurfiol, yr aethpwyd i'r afael â'r holl gwynion / materion yr adroddwyd amdanynt. Yn yr achosion lle penderfynwyd nad oedd y crynodeb o’r ymdriniaeth yn gywir, roedd hyn oherwydd diffyg manylder am yr ymholiadau a symudwyd ymlaen neu dystiolaeth, neu grynodebau byr a wnaeth fawr ddim i egluro i’r achwynydd beth oedd wedi digwydd â’i gŵyn/chwyn. Mewn un achos rhoddwyd crynodeb sylfaenol iawn i'r achwynydd ond ar ôl archwilio cofnod Centurion, canfuom ddigon o wybodaeth i egluro pa ymholiadau oedd wedi'u datblygu a'r rhesymeg dros y canlyniad. Ni ddarparwyd yr wybodaeth hon i'r achwynydd a byddai wedi ei helpu i ddeall canlyniad ei gŵyn. Dylai’r rhai sy’n ymdrin â chwynion bob amser ystyried os oes rheswm da dros gadw gwybodaeth yn ôl oddi wrth achwynydd a lle nad oes, dylai’r wybodaeth a roddir fod yn agored ac yn dryloyw.

Canfuom fod heddluoedd yn dda am ddarparu ac egluro'r hawl i adolygiad. Darparwyd hawl i adolygiad mewn 97% o'r cwynion yr ymdriniwyd â nhw yn ffurfiol.

Sylwch, fel y nodir yn y gyfraith, nid oes hawl adolygu ar gyfer cwynion yr ymdrinnir â nhw y tu allan i Atodlen 3.

Canfuom bedwar adroddiad ymchwiliad lle roeddem yn ystyried bod yr iaith yn yr adroddiad canlyniad yn amhriodol. Roedd tri o'r rhain yn cynnwys iaith beio'r dioddefwr, fel y disgrifir yn yr adran uchod. Mewn un achos o ymosodiad rhywiol yr adroddwyd amdano, ni chysylltwyd â’r dioddefwr fel rhan o’r ymchwiliad ymddygiad, yn hytrach dim ond yn cael ei hystyried yn ddioddefwr-oroeswr yn yr ymchwiliad troseddol. Nid oedd yr adroddiad canlyniad ar gyfer y mater ymddygiad yn cynnwys safbwynt y dioddefwr-oroeswr yn unrhyw un o'r dogfennau. Heb adroddiad gan y

dioddefwr-oroeswr, nid oedd yn bosibl penderfynu os oedd canlyniad y mater ymddygiad yn briodol. Nid oedd yr iaith yn yr adroddiad yn gytbwys ac yn ddiduedd, ac nid oedd yn ystyried anghenion y dioddefwr-oroeswr a ddylai fod wedi cael ei hystyried yn agored i niwed.

> Fe wnaeth ditectif gwnstabl gam-drin ei safle gyda myfyriwr prifysgol wedi'i secondio i'r heddlu, trwy gyfathrebu â hi mewn ffordd rywiol, gan gynnwys anfon a gofyn am luniau sy'n dangos popeth a negeseuon fflyrtio. Ar ôl cwblhau ei hastudiaethau, cafodd y fyfyrwraig brifysgol ei chyflogi gan yr heddlu a rhoddodd wybod am yr ymddygiad. Cafodd y mater ei drin yn ddifrifol a chafodd y swyddog ei arestio a'i gyfweld. Tynnodd y dioddefwr gefnogaeth i'r ymchwiliad yn ôl oherwydd materion personol eraill. Roedd yr ymchwiliad i'r mater ymddygiad yn gymesur ac roedd yr adroddiad canlyniad yn ymdrin â'r holl faterion a adroddwyd, ond methodd yr iaith â chydnabod yr anghydbwysedd grym rhwng swyddog profiadol a myfyriwr. Dylai'r adroddiad fod wedi archwilio sut yr effeithiodd yr anghydbwysedd pŵer ar y ffordd y gwnaeth y dioddefwr ymddwyn drwy beidio â gwrthod y cyswllt a lliniariad y swyddog nad oedd ganddo unrhyw reswm i wybod bod y dioddefwr-oroeswr yn teimlo'n anghyfforddus. Roedd yr iaith yn yr adroddiad yn canolbwyntio'n ormodol ar ymddygiad y dioddefwr-oroeswr ac nid y swyddog. Er bod tystiolaeth o gyfathrebu ar y cyd, soniodd y dioddefwr-oroeswr am bryderu am ei rhagolygon gyrfa pe bai'n gwrthod y swyddog ac yn siarad.

Ychydig o achosion a ganfuwyd gennym lle roedd tystiolaeth bod bregusrwydd neu anghenion y dioddefwr-oroeswr / achwynydd yn cael eu hystyried wrth gyfathrebu canlyniad yr ymdriniaeth. Fel yr eglurwyd uchod, byddem yn disgwyl bod cyfran uchel o ddioddefwyr-oroeswyr / achwynwyr mater VAWG yn agored i niwed mewn rhyw ffordd, oherwydd natur yr ymddygiadau yr adroddir amdanynt.

Byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ystyried anghenion y dioddefwr-oroeswr / achwynydd drwy gydol y broses o ymdrin â chwyn neu fater ymddygiad, ond yn enwedig ar ddiwedd yr ymdriniaeth lle gallai fod gan ddioddefwr-oroeswr / achwynydd ddisgwyliadau am y canlyniad neu'r camau gweithredu i gael eu cymryd, neu hyd yn oed deimlo'n fwy ynysig neu fregus pan ddaw'r ymdriniaeth i ben. Canfuom rai achosion cam-drin domestig lle roedd achwynwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n agored i niwed neu'n ofnus am eu diogelwch o fewn eu cwyn, ond eto ni chyfeiriwyd at gymorth naill ai ar ddechrau'r ymdriniaeth nac ar y diwedd, pan gafodd y canlyniad ei gyfleu. Yn yr achosion hyn, byddem yn disgwyl i'r sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn gyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol fel IDVA / ISVA neu sefydliad cam-drin domestig. Mewn rhai achosion, canfuom y dylai'r sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn fod wedi cyfeirio at wasanaethau cymorth i ddioddefwyr wrth gyfathrebu canlyniad y gŵyn.

Gwnaeth trydydd parti adroddiad o gam-drin domestig gan yr heddlu tuag at eu ffrind. Ymchwiliwyd i'r mater fel mater ymddygiad. Ni chynorthwyodd y dioddefwr-oroeswr yr ymchwiliad. Ar ddiwedd yr ymchwiliad, cysylltodd yr heddlu â'r dioddefwr-oroeswr ac esboniwyd canlyniad yr ymchwiliad. Cyfeiriodd y sawl a oedd yn delio â’r gŵyn y dioddefwr-oroeswr at brosiect cam-drin domestig lleol a allai ddarparu cymorth a chyngor.

Mae’n bosibl na fydd dioddefwyr cam-drin domestig yn cynorthwyo ymchwiliad troseddol nac ymddygiad i gamdriniaeth partner am amrywiaeth o resymau cymhleth. Gallai hyn fod yn deimladau o gywilydd, ofn beio’r dioddefwr, ofn ôl-effeithiau, dibyniaeth ariannol, cael eich ynysu oddi wrth rwydwaith cymorth, ofn colli plant, i enwi ond ychydig. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n ymdrin â chwynion yn deall y cymhlethdodau hyn. Er nad oedd y dioddefwr-goroeswr yn yr achos hwn am gynorthwyo'r ymchwiliad, dangosodd yr heddlu arfer cadarnhaol drwy gyfleu canlyniad yr ymchwiliad ymddygiad iddi a’i chyfeirio at wasanaethau cymorth perthnasol.

**Argymhelliad 8**

Dylai’r rhai sy’n ymdrin â chwynion sicrhau, wrth gyfathrebu canlyniad cwyn neu fater ymddygiad, eu bod yn ystyried anghenion neu wendidau penodol y dioddefwr-oroeswr / achwynydd VAWG. Dylent ystyried y ffordd y caiff y canlyniad ei gyfleu a pha gymorth sydd ei angen ar ôl ymdrin â'r mater VAWG. Dylai ymdrinwyr â chwynion geisio cyfeirio at gymorth perthnasol lle mae'n briodol. Mae hyn yn cysylltu ag argymhelliad tri lle dylid ystyried bregusrwydd a chymorth drwy gydol y broses o ymdrin â mater VAWG.

## Hygyrchedd

Fe wnaethom ofyn i’r wyth llu heddlu pa fentrau (os o gwbl) sydd ganddynt ar waith i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu i grwpiau VAWG-benodol, darparwyr gwasanaeth, achwynwyr neu ddioddefwyr-oroeswyr. O'r pump heddlu a ymatebodd, roedd gan dri enghreifftiau o sut y maent wedi gwneud hyn. Dywedodd dau heddlu nad oes ganddynt unrhyw fentrau penodol ar gyfer cwynion cyhoeddus yn y maes hwn, y tu allan i'r sianeli arferol i godi anfodlonrwydd.

Eglurodd un heddlu fod ganddo Swyddog Atal penodedig sy'n ymgysylltu ag asiantaethau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r system gwynion. Dywedodd heddlu arall ei fod yn cynnal cynhadledd VAWG ar gyfer holl bartneriaid y Gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC). Ei nod yw addysgu eu partneriaid ar faterion VAWG a cham-drin safle at ddiben rhywiol (APSP), ac egluro mecanweithiau adrodd a system gwynion yr heddlu. Eglurodd yr heddlu olaf a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod wedi'i wneud yn haws ac yn fwy hygyrch i'r

cyhoedd fynegi eu hanfodlonrwydd drwy'r porth Cartref Ar-lein Sengl. Mae hwn yn blatfform digidol lle gall y cyhoedd wneud cwyn (ymhlith pethau eraill). Caiff ei gydnabod, er nad yw’r porth yn benodol ar gyfer grwpiau VAWG, ei fod wedi mabwysiadu hyn fel amcan strategol yn eu Cynllun Cyflawni VAWG.

Gofynnwyd hefyd sut mae heddluoedd yn sicrhau mynediad i system gwynion yr heddlu ar gyfer achwynwyr/dioddefwyr a allai fod yn arbennig o agored i niwed neu sydd â diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu oherwydd VAWG a gyflawnwyd gan yr heddlu. O’r pump heddlu a ymatebodd i’r cwestiwn hwn, roedd enghreifftiau a ddarparwyd yn cynnwys IDVAau / ISVAau, gofyn am anhysbysrwydd mewn gwrandawiadau a sicrhau bod holl faterion troseddau a gyflawnir gan yr heddlu, ac yn benodol cam-drin domestig, yn cael eu trin fel blaenoriaeth i’w hymchwilio gan adrannau safonau proffesiynol. Esboniodd un heddlu fod ganddo borth cyhoeddus o'r enw Safecall sy'n caniatáu i'r cyhoedd adrodd ar unrhyw gamdriniaeth o'r fath yn ddienw trwy barti annibynnol.

Pan ofynnwyd sut mae heddluoedd yn sicrhau bod taith achwynydd / dioddefwr-oroeswr drwy’r system gwynion yn cael ei chynorthwyo; gan gydnabod ac ymateb i anghenion a gwendidau penodol, rhoesant sawl enghraifft. Soniodd dau o'r pum heddlu a ymatebodd am sut mae achosion yn cael eu dyrannu i swyddogion profiadol, arbenigol sydd ag arbenigedd yn y pwnc. Pwysleisiodd un heddlu ei fod yn trafod mesurau arbennig (ystod o fesurau sy'n hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion sy'n agored i niwed ac wedi'u brawychu) yn gynnar, yn cytuno ar gontractau dioddefwyr unigol ar eu dull cyswllt dewisol, a'r defnydd o IDVA / ISVAau. Esboniodd un heddlu y bydd y rhai sy'n ymdrin â chwynion yn ymateb i anghenion achwynwyr sy'n agored i niwed / dioddefwyr-oroeswyr ac yn cyfeirio at wasanaethau cymorth lle'n briodol.

Fe wnaethom hefyd ofyn i heddluoedd pa fecanweithiau sydd ganddynt ar waith i ddioddefwyr yr heddlu adrodd am faterion ymddygiad yn ymwneud â VAWG. Dywedodd pob un o'r pump heddlu a ymatebodd fod ganddynt linell adrodd gyfrinachol. Dywedodd un heddlu ei fod yn rhannu enghreifftiau fel mater o drefn â'i swyddogion a staff yr heddlu o ganlyniadau o faterion camymddwyn, gan ddarparu manylion ymddygiad gwael. Dywedodd yr un heddlu ei fod hefyd wedi cynnal tri digwyddiad ‘sgwrs ddewr am VAWG’ lle gwahoddir staff a swyddogion yr heddlu i drafod eu profiad o VAWG. Mewn heddlu arall, mae hyrwyddwyr cam-drin domestig ar gael i roi cymorth a chyngor i ddioddefwyr yr heddlu. Dywedodd heddlu arall ei fod wedi mabwysiadu’r fenter ‘Cylchoedd Gwrando’, sy’n cael eu goruchwylio a’u cydlynu gan arweinydd strategol VAWG, ochr yn ochr ag uwch gynrychiolydd o Gymdeithas Menywod mewn Plismona. Mae unrhyw faterion a godir yn y fforwm hwn yn cael eu dwyn i sylw’r uwch arweinwyr yn y PSD. Ystyrir bod y mecanweithiau hyn yn arferion cadarnhaol i ganiatáu sgyrsiau agored ac i godi ymwybyddiaeth o VAWG a'r anawsterau unigryw a wynebir gan ddioddefwyr yr heddlu wrth adrodd am ymddygiad.

Gwnaethom ofyn i heddluoedd sut y maent yn sicrhau bod yr heddlu sy'n ddioddefwyr trais VAWG a gyflawnir gan yr heddlu yn cael eu cynorthwyo'n briodol i

adrodd am faterion ymddygiad a thrwy unrhyw ymchwiliad dilynol. Soniodd dau o’r heddluoedd a ymatebodd hefyd am swyddog lles yn cael ei benodi ar ddechrau ymchwiliad, tra soniodd trydydd heddlu am swyddog ymgysylltu â dioddefwyr penodedig yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer diweddariadau rheolaidd a pherthnasol. Roedd enghreifftiau eraill a godwyd gan y pedwar heddlu a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cynnwys newid dyletswyddau cyflawnwyr honedig a chyfeirio at sefydliadau cymorth a chefnogaeth Ffederasiwn yr Heddlu. Esboniodd un heddlu y gallai cyfarfod cydgysylltu gael ei gynnal ar ddechrau ymchwiliad yn ymwneud â dioddefwr yr heddlu i sicrhau bod ei lles yn cael ei gynorthwyo drwy'r tîm rheoli, yr uned iechyd galwedigaethol a rheolwyr llinell. Crybwyllwyd undebau llafur fel ffynhonnell gymorth, ochr yn ochr â chanolfan dioddefwyr sy'n darparu cymorth gwell i ddioddefwyr.

Yn olaf, pan ofynnwyd sut mae heddluoedd yn sicrhau bod dioddefwyr yr heddlu yn ymwybodol o'u hawl i adrodd am fater ymddygiad a chael eu trin fel unigolyn â diddordeb o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, darparwyd nifer o enghreifftiau. Dywedodd dau heddlu eu bod yn cyhoeddi cylchlythyr chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth fel astudiaethau achos a chanlyniadau cadarnhaol. Cyfeiriodd yr un heddluoedd hefyd at godi ymwybyddiaeth trwy fewnbynnau a phresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi llesiant a’r heddlu, ochr yn ochr â hyfforddiant arweinyddiaeth. Dywedodd heddlu arall fod ganddo dîm dysgu, atal ac addysg sefydliadol penodedig sy'n cyflwyno sesiynau i fyfyrwyr sy'n swyddogion, yn ogystal â rhingylliaid ac arolygwyr sydd newydd gael dyrchafiad. Mae'r sesiynau'n codi ymwybyddiaeth o VAWG, yr hyn a ystyrir yn ymddygiad amhriodol a sut i adrodd amdano.  Esboniodd un lu ei fod wedi creu addewid tyst PSD, lle mae swyddogion ymchwilio PSD yn ystyried lles tystion a’r rhai sy’n adrodd am faterion ymddygiad yn derbyn diweddariadau 28 diwrnod. Dywedodd fod yr addewid hefyd yn rhoi cymorth i dystion wrth ddarparu tystiolaeth mewn cyfarfodydd neu wrandawiadau.

## Argymhelliad 9

Dylai pob llu heddlu ystyried pa fentrau a mecanweithiau sydd ganddynt ar waith i hyrwyddo mynediad i system gwynion yr heddlu ar gyfer grwpiau penodol VAWG. Dylai heddluoedd ystyried pa bartneriaethau lleol y gallai eu heddlu gael budd ohonynt. Dylent hefyd edrych ar anghenion penodol dioddefwyr yr heddlu i gael mynediad i'r system a pha ddarpariaethau sydd ar waith yn fewnol i'w cefnogi. Dylid ystyried sut mae'r mentrau a'r mecanweithiau hyn i adrodd am VAWG yn cael eu hyrwyddo.

# Argymhellion

| | |
|---|---|
| **1** | Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) yn rhoi arweiniad i bob heddlu yng Nghymru a Lloegr ar ddiffinio a chymhwyso ffactorau cenedlaethol VAWG Centurion yn gywir. |
| **2** | Bydd SAYH yn dechrau prosiect ar wahân yn canolbwyntio ar sut mae heddluoedd yn ymateb i adroddiadau PPDA. Bydd hyn yn cynnwys sut mae adroddiadau am PPDA yn cael eu hadnabod a'u cofnodi, yr holl ffordd i sut mae materion cwynion ac ymddygiadau yn cael eu trin. Bydd y gwaith yn adeiladu ar yr hyn rydym yn ei wybod o'r adroddiad uwch-gwynion CWJ a bydd yn canolbwyntio ar adnabod datrysiadau i wella'r ymateb plismona i PPDA. |
| **3** | Dylai heddluoedd weithio gyda grwpiau cymorth lleol, elusennau a sefydliadau i ffurfio partneriaethau i ddarparu cymorth priodol. Dylai fod gan ymdrinwyr â chwynion wybodaeth ac adnoddau ar gael iddynt, er mwyn iddynt wybod beth yw'r partneriaethau hynny. |
| **4** | Pan godir cwyn VAWG neu fater ymddygiad, dylai'r rhai sy'n ymdrin â chwynion ystyried y gwendidau posibl sy'n gysylltiedig â bod yn ddioddefwr-oroeswr neu'n achwynydd mater VAWG. Dylai ymdrinwyr â chwynion ystyried pa gymorth allai fod yn ofynnol a thrafod yr opsiynau â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr. Dylid dogfennu cyfrifoldeb am ofal dioddefwr-goroeswr yn y ffeil. |
| **5** | Dylai heddluoedd gynnwys cofnodion datganiadau gwrthdaro buddiannau fel rhai safonol ar bob achos VAWG i ddangos eu bod wedi ystyried unrhyw wrthdaro posibl ac i roi sicrwydd i achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr o addasrwydd y trafodwr cwynion penodedig. |
| **6** | Dylai heddluoedd wneud gwelliannau i gadw cofnodion ar gyfer cwynion yr ymdriniwyd â nhw'n anffurfiol a chymhwyso rhai safonau sylfaenol. Dylai systemau'r heddlu gofnodi digon o wybodaeth i allu dangos pa gamau sydd wedi cael eu cymryd a pha wybodaeth a gafodd ei rhoi i'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr. Lle cafodd achwynydd ei ddiweddaru'n llafar am yr ymdrin anffurfiol, dylai nodyn crynodeb byr ddogfennu'r sgwrs honno. |
| **7** | Dylai heddluoedd fodloni eu hunain fod ganddynt brosesau mewn grym i sicrhau bod achwynwyr, dioddefwyr-oroeswyr neu unigolion â diddordeb mewn ymchwiliad ymddygiad yn cael eu diweddaru'n llawn ar ganlyniad yr ymchwiliad i ymddygiad. Gellir cyfathrebu'r canlyniad trwy roi copi |

| | |
|---|---|
| | iddynt o adroddiad yr ymchwiliad ymddygiad, lle'n briodol, neu drwy ddulliau eraill a gytunir â'r achwynydd / dioddefwr-oroeswr megis wyneb yn wyneb. Lle mae'r canlyniad yn cael ei gyfathrebu'n llafar, dylai cofnod o'r sgwrs gael ei wneud. |
| **8** | Dylai'r rhai sy'n ymdrin â chwynion sicrhau, wrth gyfathrebu canlyniad cwyn neu fater ymddygiad, eu bod yn ystyried anghenion neu wendidau penodol y dioddefwr-oroeswr / achwynydd VAWG. Dylent ystyried y ffordd y caiff y canlyniad ei gyfleu a pha gymorth sydd ei angen ar ôl ymdrin â'r mater VAWG. Dylai ymdrinwyr â chwynion geisio cyfeirio at gymorth perthnasol lle'n briodol. Mae hyn yn cysylltu ag argymhelliad tri lle dylid ystyried bregusrwydd a chymorth drwy gydol y broses o ymdrin â mater VAWG. |
| **9** | Dylai pob heddlu ystyried pa fentrau a mecanweithiau sydd ganddynt ar waith i hyrwyddo mynediad i system gwynion yr heddlu ar gyfer grwpiau penodol VAWG. Dylai heddluoedd ystyried pa bartneriaethau lleol y gallai eu heddlu gael budd ohonynt. Dylent edrych ar anghenion penodol dioddefwyr yr heddlu i gael mynediad i'r system a pha ddarpariaethau sydd ar waith yn fewnol i'w cynorthwyo. Dylid ystyried sut mae'r mentrau a'r mecanweithiau hyn i adrodd am VAWG yn cael eu hyrwyddo. |

# Camau nesaf

Mae'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn wedi'u hanelu at wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion sy'n ymwneud â VAWG, ac ymdrin â chwynion yn gyffredinol. Ein nod yw meithrin ymddiriedaeth a hyder i adrodd am gwynion a materion ymddygiad sy'n ymwneud â VAWG a chynorthwyo ymateb yr heddlu i'r materion hynny mewn ffordd gadarn sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o ymdrin â chwynion VAWG a materion ymddygiad yn dda, ond rydym yn cydnabod bod lle i wella o hyd, yn enwedig o ran deall pa mor agored i niwed mae achwynwyr a dioddefwyr-oroeswyr VAWG. Rydym am helpu heddluoedd i ymateb yn well i'r anghenion hynny, ac i rannu arfer cadarnhaol pan fyddwn yn dod o hyd iddo.

## Argymhelliad 1

Bydd SAYH yn gweithio gyda'r NPCC i wella'r arweiniad ynghylch cymhwyso ffactorau cenedlaethol Centurion ar VAWG. Bydd hyn yn gwella ansawdd casglu data. Bydd cael data cywirach yn galluogi heddluoedd a chyrff goruchwylio eraill i ddeall y darlun mewn plismona fel y mae'n ymwneud â VAWG ac yn ei dro, i fonitro ac olrhain gwelliannau neu feysydd sy'n peri pryder. Rydym eisoes wedi dechrau sgyrsiau ar yr argymhelliad hwn.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau am yr argymhelliad hwn yn ein cylchlythyr misol Oversight, sydd wedi'i anelu at y rhai sy'n ymdrin â chwynion ac a gyhoeddir ar ein gwefan.

## Argymhellion 2 – 8

Bydd tîm Goruchwylio SAYH, fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu reolaidd â heddluoedd, yn cynnal trafodaethau strwythuredig ar yr argymhellion hyn. Bydd y sgyrsiau hyn yn monitro gweithrediad yr argymhellion ac yn cynorthwyo heddluoedd i roi mentrau ar waith sy'n gweithio i wella ymdrin â chwynion.

Byddwn yn cyhoeddi unrhyw arfer y gellir ei rannu yn ein cylchlythyr misol Oversight i helpu heddluoedd i wella eu prosesau ac i gefnogi arfer cadarnhaol.

## Gwaith thematig ehangach VAWG

### Mater ffocws 12: Canllawiau casglu data

Mae SAYH wedi diweddaru ei ganllawiau Focus ar gasglu data i gynnwys astudiaethau achos VAWG ac enghreifftiau i gefnogi cymhwyso ffactorau cenedlaethol VAWG Centurion. Ochr yn ochr â chanllawiau NPCC, bydd hyn yn gwella casglu data a gwybodaeth am ymdrin â chwynion VAWG.

### Prosiect PPDA â ffocws

Fel yr eglurwyd uchod, ni nododd y sampl hap hwn nifer digonol o achosion PPDA i fodloni'r camau gweithredu a ddeilliodd o uwch-gŵyn CWJ. Bydd SAYH yn gwneud gwaith ychwanegol i ymdrin ag achosion PPDA mewn heddluoedd. Bydd y gwaith ychwanegol hwn yn rhan o is-brosiect ar wahân a byddwn yn creu adroddiad ar wahân arno.

Byddwn yn cyfathrebu â rhanddeiliaid plismona am y prosiect hwn, unwaith y bydd y cynnig a'r fethodoleg wedi'u cytuno. Byddwn hefyd yn rhannu manylion y gwaith hwn â'r rhanddeiliaid nad ydynt yn ymwneud â phlismona rydym wedi bod yn gweithio gyda nhw, yn enwedig y Ganolfan Cyfiawnder Merched.

## Canllaw osgoi iaith beio dioddefwr

Mae ein gwaith i wella ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched yn elfen hanfodol o'n nod i wella hyder y cyhoedd mewn plismona – a'r system gwynion. Gyda hyn mewn golwg, mae dogfen ganllaw o'r enw **Rhoi terfyn ar feio dioddefwyr: trais yn erbyn menywod a merched**: **Pam mae iaith, agweddau ac ymddygiadau o bwys** wedi cael ei chynhyrchu. Trefnir ei bod ar gael i staff SAYH a'r holl heddluoedd i'w defnyddio. Ein nod yw cyhoeddi'r canllaw yn allanol ym Mawrth 2024.

## Ymgyrch gwybod eich hawliau

Rydym yn datblygu ymgyrch wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu a hawliau dioddefwyr wrth wneud cwyn yn erbyn yr heddlu. Bydd yr ymgyrch yn cael ei thargedu at ddioddefwyr-oroeswyr trais yn erbyn menywod a merched a'r sefydliadau sy'n eu cynorthwyo. Bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio yng Ngwanwyn 2024.

## Adolygiad mewnol SAYH o ymdrin ag achosion VAWG

I ategu'r hapsamplu hwn mewn heddluoedd, cynhaliodd SAYH adolygiad mewnol o'r modd yr ymdriniodd ag achosion VAWG mewn ymchwiliadau ac adolygiadau annibynnol. Mae tîm gwella ansawdd a gwasanaeth SAYH wedi adolygu 60 o ymchwiliadau annibynnol, 55 adolygiad yn ogystal ag adolygiad ar wahân i ystyried iaith beio dioddefwyr. Nod yr adolygiadau hyn oedd rhoi trosolwg o'r dechrau i'r diwedd o arfer diweddar SAYH mewn achosion yn cynnwys VAWG. Rydym yn ystyried canfyddiadau'r hapsamplau hyn fydd yn arwain at waith gwella mewnol.

## Adolygiad ystadegol o atgyfeiriadau

Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad ystadegol o atgyfeiriadau VAWG a dderbyniwyd gan SAYH. Asesodd yr adolygiad gydymffurfiaeth â'r meini prawf atgyfeirio gorfodol a rhoddodd waelodlin i fesur atgyfeiriadau yn eu herbyn yn y dyfodol. Roedd yn cynnwys nodyn atgoffa ar ddeddfwriaeth a chanllawiau ynghylch ymddygiad oddi ar ddyletswydd. Rydym yn bwriadu ailadrodd yr adolygiad a monitro niferoedd yr atgyfeiriadau yn 2024.

**Atodiad A**

# VAWG Ffactorau Cenedlaethol Centurion:

**VAWG – Heddlu yn cyflawni**
Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gŵyn sy’n codi o neu’n ymwneud â digwyddiad VAWG lle mae’r cyflawnwr honedig (o unrhyw ryw) yn weithiwr i’r heddlu. Os mai gweithiwr heddlu yw’r dioddefwr hefyd, dylid dewis y ffactor ‘VAWG – dioddefwr heddlu’ hefyd. Nid oes rhaid i'r achwynydd fod yn ddioddefwr y digwyddiad VAWG.

**VAWG – Dioddefwr heddlu**
Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gŵyn sy'n deillio o neu'n ymwneud â digwyddiad VAWG lle mae'r dioddefwr yn weithiwr i'r heddlu. Os mai gweithiwr heddlu hefyd yw’r cyflawnwr, dylid dewis y ffactor ‘VAWG – cyflawnwyd gan yr heddlu’ hefyd. Nid oes rhaid i’r achwynydd fod yn ddioddefwr y digwyddiad VAWG, a gall y cyflawnwr fod o unrhyw ryw.

**VAWG – Ymdrin ag anfodlonrwydd**
Mynegiant o anfodlonrwydd ynghylch y modd yr ymdriniwyd ag achos VAWG a fynegir gan neu ar ran unigolyn sy’n gymwys i wneud cwyn o dan atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002*. Nid oes rhaid i’r achwynydd fod yn ddioddefwr y digwyddiad VAWG, a gall y cyflawnwr fod o unrhyw ryw

**Atodiad B**

# Arolwg hygyrchedd

**C1. Pa fentrau (os o gwbl) sydd gennych ar waith i godi ymwybyddiaeth o system gwynion yr heddlu i grwpiau penodol VAWG, darparwyr gwasanaeth, achwynwyr neu ddioddefwyr-oroeswyr?**

*Er enghraifft: cydweithio â grwpiau cymunedol lleol neu elusennau/sefydliadau VAWG i rannu gwybodaeth am system gwynion yr heddlu a hawliau achwynwyr? Gall hyn hefyd gynnwys gwaith gan eich corff plismona lleol.*

**C2: Rydym yn gwybod y gall dioddefwyr ei chael yn arbennig o anodd adrodd am droseddau sy'n ymwneud â VAWG, gyda phryderon penodol na fyddent yn cael eu credu, na fyddant yn cael ymateb diduedd gan yr heddlu neu ofn ôl-effeithiau. Sut ydych chi'n sicrhau mynediad i system gwynion yr heddlu ar gyfer achwynwyr / dioddefwyr-oroeswyr a allai fod yn arbennig o agored i niwed neu sydd â diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu oherwydd VAWG a gyflawnir gan yr heddlu?**

**C3: Yn ogystal â sicrhau mynediad da i'r system gwynion, sut ydych chi'n sicrhau bod taith achwynydd / dioddefwr-oroeswr drwy'r system gwynion yn cael ei chefnogi, gan gydnabod ac ymateb i anghenion a gwendidau penodol?**

**C4a: Pa fecanweithiau sydd gennych ar waith i <u>ddioddefwyr yr heddlu</u> adrodd am faterion ymddygiad sy'n ymwneud â VAWG?**
*Er enghraifft: llinell adrodd gyfrinachol, trwy reolwyr llinell, maes adrodd ar dudalen fewnrwyd yr heddlu.*

**C4b: Sut ydych chi'n codi ymwybyddiaeth o'r mecanweithiau sydd ar gael i ddioddefwyr yr heddlu?**
*Er enghraifft: Erthyglau newyddion, sesiynau hyfforddi recriwtiaid newydd, mewnbwn yr adran safonau proffesiynol, hyfforddiant rheolwyr llinell.*

**C5: Sut ydych chi'n sicrhau bod dioddefwyr yr heddlu yn ymwybodol o'u hawl i adrodd am fater ymddygiad a chael eu trin fel unigolyn â diddordeb o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2022?***
*Er enghraifft: Erthyglau newyddion, mewnbynnau adran safonau proffesiynol, rhannu astudiaethau achos, taflenni a deunyddiau yn adeiladau'r heddlu.*

**C6: Rydym yn gwybod y gall fod pryderon ychwanegol i ddioddefwyr yr heddlu am yr effaith ar eu bywyd gwaith. Sut ydych chi'n sicrhau bod yr heddlu sy'n ddioddefwyr trais VAWG a gyflawnwyd yn cael eu cynorthwyo'n briodol i adrodd am faterion ymddygiad a thrwy gydol unrhyw ymchwiliad dilynol?**

*Er enghraifft: swyddogion lles, cyfeirio at asiantaethau cymorth, adleoli naill ai'r dioddefwr neu'r troseddwr, ystyried patrymau sifft, ymwybyddiaeth rheolwyr llinell a hyfforddiant.*

**Atodiad C**

# Ymdrin y tu allan i amserlen 3

Lle mae'n addas, gellir ymdrin â rhai cwynion y tu allan i ofynion Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.* Mae'n bosibl y bydd rhai cwynion yn gofyn am esboniad, diweddariad neu i wybodaeth gael ei rhannu. Mae'r rhain yn gamau y gellir eu cymryd yn gyflym heb gynnal ymholiadau manwl. Mae ymdrin â chwyn y tu allan i ofynion Atodlen 3 yn rhoi cyfle i fynd i'r afael yn brydlon â'r pryderon y mae'r achwynydd wedi'u codi a'r nod yw datrys y mater i foddhad yr achwynydd. Efallai mai ymdrin â chwynion y tu allan i Atodlen 3, yn brydlon, yw'r ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol a buddiol o ddatrys y gŵyn.

Nid yw rhai cwynion yn addas i'w trin y tu allan i Atodlen 3. Os na all y sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn ddatrys y gŵyn i foddhad yr achwynydd, neu os daw'n amlwg bod angen ymholiadau ychwanegol, mae hyn yn dynodi y dylid cofnodi'r mater. Ni fydd cwyn yn addas i'w thrin y tu allan i Atodlen 3 lle mae angen cymryd adroddiadau gan swyddogion, neu lle mae angen cymryd camau ymchwilio eraill. Os yw achwynydd yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn, gall ofyn iddi gael ei chofnodi.

Mae'n rhaid i gŵyn gael ei chofnodi a'i thrin o dan Atodlen 3 os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu ei bod yn briodol, os yw'r achwynydd yn gofyn iddi gael ei chofnodi neu os yw'r gŵyn:

- yn honiad bod yr ymddygiad neu'r mater arall y cwynir amdano wedi arwain at farwolaeth neu anaf ddifrifol
- yn honiad a allai, o'i brofi, fod yn drosedd gan unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu neu gyfiawnhau dwyn achos disgyblu
- yn ymwneud ag ymddygiad neu unrhyw fater arall a allai, o'i brofi, fod wedi ymwneud â thorri hawliau unigolyn o dan Erthyglau 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu
- yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf atgyfeirio gorfodol

# Ymdrin heblaw trwy ymchwiliad

Lle mae mater wedi'i gofnodi ac nad oes gofyniad i ymchwilio, a bod yr awdurdod priodol yn penderfynu nad yw'n rhesymol a chymesur ymchwilio i gŵyn a gofnodwyd, gellir ymdrin â'r gŵyn o dan Atodlen 3 heblaw drwy ymchwiliad (OTBI). Gall y rhai sy'n ymdrin â chwynion feddwl yn greadigol ynghylch pa gamau fydd fwyaf defnyddiol i ddarparu atebion ystyrlon ac i unioni anfodlonrwydd yr achwynydd.

Lle mae'r gŵyn yn cynnwys pryderon am weithredoedd unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu, dylid annog yr unigolyn hwnnw i gymryd rhan yn y gwaith o ymdrin â'r gŵyn. Disgwylir yn gyffredinol y byddant, o leiaf, yn gwneud sylwadau ar y gŵyn.

# Ymchwiliad

Mae'n rhaid ymchwilio i gŵyn lle mae’r awdurdod priodol yn penderfynu mai dyna’r ffordd resymol a chymesur o ymdrin â hi. Yn ogystal, mae'n rhaid ymchwilio i'r canlynol:

- unrhyw gŵyn lle mae arwydd, naill ai o’r gŵyn ei hun neu o’r ymdriniaeth hyd yma, bod:
  - unigolyn sy’n gwasanaethu gyda’r heddlu fod wedi cyflawni camwedd troseddol neu ymddwyn mewn modd a fyddai’n cyfiawnhau dwyn achos disgyblu, neu
  - y gall fod wedi torri hawliau unigolyn o dan Erthyglau 2 neu 3 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- unrhyw gŵyn, mater marwolaeth neu anaf difrifol neu fater ymddygiad cofnodadwy y mae SAYH wedi penderfynu y mae’n rhaid ei ymchwilio, yn dilyn cyfeirio’r mater at SAYH neu SAYH yn trin y mater fel un sydd wedi’i atgyfeirio
- mae'n rhaid ymchwilio neu ailymchwilio i unrhyw gŵyn y mae SAYH wedi penderfynu arni yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag adolygiad.

**Atodiad D**

# Ffactorau VAWG a gymhwysir gan SAYH

## 1a. Trais yn erbyn menywod a merched (VAWG)

Unrhyw achosion sy’n ymwneud â mater sy’n codi o neu’n ymwneud â digwyddiad trais yn erbyn menywod a merched a lle mae o leiaf un dioddefwr yn fenyw neu’n ferch, gan gynnwys menywod a merched trawsryweddol, neu’n cael ei ganfod felly. Mae achosion sy'n ymwneud â cham-drin swydd at ddiben rhywiol (APSP) hefyd yn dod o fewn y categori trais yn erbyn menywod a merched.

## 1b. VAWG: Mae'r cyflawnwr yn weithiwr i'r heddlu

Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw fater sy'n codi o neu'n ymwneud â digwyddiad trais yn erbyn menywod a merched lle mae'r cyflawnwr honedig (o unrhyw ryw) yn weithiwr i'r heddlu. Os mai gweithiwr heddlu yw’r dioddefwr hefyd, byddai’r is-ffactor ‘Cyflawnwr a dioddefwr yn weithwyr heddlu’ yn cael ei ddewis yn lle hynny.

## 1c. VAWG: Mae'r cyflawnwr a'r dioddefwr yn weithwyr heddlu

Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw fater sy'n codi o neu'n ymwneud â digwyddiad trais yn erbyn menywod a merched lle mae'r troseddwr a'r dioddefwr yn weithwyr i'r heddlu. Gall y troseddwr honedig fod o unrhyw ryw.

## 1d. VAWG: Anfodlon â’r modd yr ymdriniwyd â mater yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched

Mynegiant o anfodlonrwydd ynghylch y modd yr ymdriniwyd ag achos trais yn erbyn menywod a merched. Nid oes rhaid i’r achwynydd fod yn ddioddefwr y digwyddiad trais yn erbyn menywod a merched, a gall y cyflawnwr fod o unrhyw ryw.

## 2. Cam-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu (PPDA)

Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw gŵyn cam-drin domestig neu fater ymddygiad lle mae’r cyflawnwr honedig (o unrhyw ryw) yn weithiwr i’r heddlu. Mae ein canllawiau yn nodi:

“Mae cyflawnwr yr heddlu yn swyddog heddlu (o unrhyw reng), cwnstabl gwirfoddol, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, staff heddlu neu unigolyn sydd wedi’i gontractio i weithio i’r heddlu.

Cam-drin Domestig:

Mae ymddygiad unigolyn (“A”) tuag at unigolyn arall (“B”) yn “gam-drin domestig” os -

- yw A a B yn 16 oed neu’n hŷn ac yn gysylltiedig yn bersonol â’i gilydd, a

- bod yr ymddygiad yn gamdriniol.

Mae ymddygiad yn “ddifrïol” os yw’n cynnwys unrhyw un o’r canlynol—

- cam-drin corfforol neu rywiol
- ymddygiad treisgar neu fygythiol
- ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi
- cam-drin economaidd
- cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall
- ac nid oes gwahaniaeth os yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs o ymddygiad

Mae dau unigolyn “yn bersonol gysylltiedig” â’i gilydd os yw unrhyw un o’r canlynol yn gymwys—

- maen nhw, neu wedi bod, yn briod â'i gilydd
- maen nhw, neu wedi bod, yn bartneriaid sifil i'w gilydd
- maen nhw wedi cytuno i briodi ei gilydd (os yw’r cytundeb wedi’i derfynu neu beidio)
- maen nhw wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil (os yw’r cytundeb wedi’i derfynu neu beidio)
- maen nhw, neu wedi bod, mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd
- maen nhw'n berthnasau
- mae gan bob un, neu bu amser pan mae'r ddau ohonynt wedi cael, perthynas rhiant mewn perthynas â'r un plentyn. Sylwch,  mae gan unigolyn berthynas rhiant mewn perthynas â phlentyn os—
    - yw’r unigolyn yn rhiant i’r plentyn, neu
    - mae gan yr unigolyn gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn
    - ystyr “plentyn” yw unigolyn o dan 18 oed
    - mae gan “cytundeb partneriaeth sifil” yr ystyr a roddir gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004
    - mae gan “cyfrifoldeb rhiant” yr un ystyr ag yn Neddf Plant 1989 (gweler adran 3 o’r Ddeddf honno)
    - mae gan “perthynas” yr ystyr a roddir gan adran 63(1) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996.

## 2a. Mae'r dioddefwr yn weithiwr heddlu

Mae hyn yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad sy'n deillio o neu'n ymwneud â digwyddiad cam-drin domestig a gyflawnwyd gan yr heddlu lle mae'r dioddefwr yn weithiwr i'r heddlu.

# Geirfa

## Awdurdod priodol

Yr awdurdod priodol yw'r prif swyddog â chyfarwyddyd a rheolaeth dros weithiwr yr heddlu. Ar gyfer y rhan fwyaf o heddluoedd, hwn yw'r prif gwnstabl. Os yw'r prif swyddog yn destun cwyn neu fater ymddygiad, yr awdurdod priodol yw'r corff plismona lleol (y comisiynydd heddlu a throsedd neu swyddog cyfatebol).

## Ffactor cenedlaethol Centurion

'Tag' a ddefnyddir ar gyfer materion cwynion ac ymddygiad ar system rheoli achosion yr heddlu i ddarparu cyd-destun sefyllfaol i'r gŵyn neu'r mater ymddygiad.

## Mater ymddygiad

Unrhyw fater nad yw'n destun cwyn, lle mae arwydd (boed hynny o'r amgylchiadau neu fel arall), y gallai unigolyn sy'n gwasanaethu'r heddlu fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau achos disgyblu.

## Meini prawf atgyfeirio gorfodol

Cwynion a materion ymddygiad cofnodadwy y mae'n rhaid eu cyfeirio at SAYH. Gweler canllawiau statudol SAYH am ragor o wybodaeth.

## Camymddwyn a chamymddwyn difrifol

Mae camymddwyn yn achos o dorri Safonau Ymddygiad Proffesiynol plismona sy'n ddigon difrifol i gyfiawnhau camau disgyblu.

Mae camymddwyn difrifol yn gamymddwyn mor ddifrifol fel bod angen diswyddo swyddog o'r heddlu.

## Dioddefwyr nad ydynt yn heddlu

Dioddefwyr-oroeswyr nad ydynt yn weithwyr heddlu.

## Cwyn am yr heddlu

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd â heddlu a fynegir gan neu ar ran un o'r cyhoedd.

## Gweithwyr yr heddlu

Swyddog heddlu (o unrhyw reng), cwnstabl gwirfoddol (heddweision gwirfoddol), swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSOau), staff heddlu, a phobl sydd wedi'u contractio i weithio i'r heddlu.

## Dioddefwr yr heddlu

Dioddefwyr-oroeswyr sydd hefyd yn weithwyr heddlu.

## Proses adolygu arfer myfyriol (RPRP) / arfer myfyriol

Mae'r fframwaith arfer myfyriol wedi'i gynllunio i roi cyfle i swyddogion a staff drafod lle gallai pethau fod wedi mynd yn well a chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hynny gyda'u rheolwr llinell. Nid yw'n arwain at ganlyniad disgyblu. Cynhelir trafodaeth fyfyriol rhwng y swyddog a'i reolwr llinell, lle mae'r pwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau ac atal y mater rhag ddigwydd eto. Gellir cytuno ar gamau gweithredu i helpu swyddogion a staff yr heddlu i ddatblygu a gwella eu perfformiad. Gellir defnyddio arfer myfyriol fel dull o ymdrin â chwyn heblaw am drwy ymchwiliad. Gellir gwneud atgyfeiriad i RPRP fel rhan o ganlyniad yn dilyn cwyn neu fater ymddygiad cofnodadwy.

## Safonau ymddygiad proffesiynol

Datganiad o'r disgwyliadau sydd gan yr heddlu a'r cyhoedd o ran sut y dylai swyddogion heddlu ymddwyn.

## Beio dioddefwyr

Trosglwyddo bai oddi wrth y cyflawnwr i'r dioddefwr-oroeswr sy'n cael ei ddal yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar fai am y niwed a ddioddefodd.

## Dioddefwr-oroeswr

Er bod 'dioddefwr' yn ddiffiniad cyfreithiol o fewn y system cyfiawnder troseddol, gellir ddefnyddio 'goroeswr' fel term grymuso i gyfleu bod unigolyn wedi dechrau'r broses iacháu ac efallai ei fod wedi cael ymdeimlad o heddwch yn ei fywyd. Mae rhai pobl yn uniaethu fel dioddefwr, tra bod yn well gan eraill y term goroeswr. Drwy gydol y canllaw hwn, rydym yn defnyddio'r term 'dioddefwr-oroeswr'.

Cyhoeddwyd Chwefror 2024

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2024)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn
mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU**
Tel: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE